



Adolygiad Gwella Ansawdd o Brifysgol De Cymru

Yr Adroddiad Technegol

Gorffennaf 2022

Cynnwys

Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd.....	1
Yr adolygiad hwn.....	1
Yr adroddiad hwn.....	1
Y feirniadaeth drosfwaol am Brifysgol De Cymru.....	2
1 Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad.....	2
2 Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academaidd.....	6
3 Darpariaeth gydweithredol.....	17

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Y dull Adolygiad Gwella Ansawdd

Mae gwefan QAA yn esbonio sut y gwneir yr [Adolygiad Gwella Ansawdd](#) ac mae ganddi ddolenni at y Llawlyfr ar gyfer Adolygiad Gwella Ansawdd a dogfennau defnyddiol eraill.¹

Ym mlwyddyn academiaidd 2021-22, roedd cwmpas yr Adolygiadau Gwella Ansawdd yn canolbwyntio ar faterion sicrhau ansawdd, yn unol â'r newidiadau a wnaed gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i'r gofynion am sicrwydd ansawdd allanol mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. O ganlyniad, cyhoeddodd QAA adendwm i Lawlyfr yr Adolygiad Gwella Ansawdd sy'n esbonio'r addasiadau i weithrediad y dull adolygu. Yn 2021-22, mae cyfle i ddarparwyr ymgysylltu â QAA ar wahân mewn perthynas â materion gwella ansawdd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael hefyd am yr [Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch \(QAA\)](#).²

Yr adolygiad hwn

Dyma Adroddiad Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd a weithredwyd gan QAA ym Mhrifysgol De Cymru. Cynhaliwyd yr ymweliad adolygu ar-lein rhwng 4 a 6 Gorffennaf 2022. Gweithredwyd yr adolygiad gan dîm o dri adolygwr, sef:

- Yr Athro John Baldock
- Dr Tim Burton
- Dr Nina Di Cara (adolygwr sy'n fyfyrwr).

Cyn yr ymweliad adolygu, cyflwynodd y darparwr ddogfen hunanwerthuso (y Dadansoddiad Hunanwerthuso) a Phecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw, sy'n cynnwys ystod o ddeunyddiau am drefniadau'r darparwr i reoli safonau academiaidd ac ansawdd.

Yr adroddiad hwn

Yn yr adroddiad hwn, mae tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd yn rhoi eu beirniadaeth mewn perthynas â:

- gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol
- gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Gallwch weld y beirniadaethau ar dudalen 2, ac mae canfyddiadau manwl yr adolygiad yn dilyn y rheiny mewn paragraffau wedi eu rhifo.

Mae Adroddiad Technegol yn nodi barn tîm yr Adolygiad Gwella Ansawdd o dan bob un o benawdau'r adroddiad. Mae Adroddiad Canlyniadau byrrach yn nodi prif ganfyddiadau'r Adolygiad Gwella Ansawdd i gynulleidfa ehangach. Mae'r [Adroddiad Canlyniadau](#) ar gyfer yr adolygiad hwn ar gael ar wefan QAA.³

Mae Adroddiadau Technegol yr Adolygiad Gwella Ansawdd wedi eu bwriadu'n bennaf i'r darparwyr dan sylw, ac i ddarparu sail gwybodaeth ar gyfer cynhyrchu adroddiadau thematig sy'n nodi canfyddiadau ar draws ystod o ddarparwyr.

¹ Rhagor o wybodaeth am yr Adolygiad Gwella Ansawdd:

www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/y-mathau-o-adolygiad/adolygiad-gwella-ansawdd.

² Rhagor o wybodaeth am QAA: www.qaa.ac.uk/cy/amdanom-nj.

³ Yr Adroddiad Canlyniadau:

www.qaa.ac.uk/cy/adolygu-addysg-uwch/adroddiadau-sicrhau-ansawdd/Prifysgol-De-Cymru

Y feirniadaeth drosfwaol am Brifysgol De Cymru

Mae Prifysgol De Cymru'n **bodloni** gofynion Rhan 1 y Safonau a Chanllawiau Ewropeaidd (ESG) o ran sicrhau ansawdd mewnol.

Mae Prifysgol De Cymru'n **bodloni** gofynion rheoleiddiol sylfaenol perthnasol y Fframwaith Asesu Ansawdd ar gyfer Cymru.

Mae hon yn feirniadaeth gadarnhaol, sy'n golygu bod gan y darparwr drefniadau cadarnhaol i sicrhau safonau academiaidd, i reoli ansawdd academiaidd ac i wella ansawdd profiad y myfyrwyr.

1 Gwybodaeth gyd-destunol am y darparwr, poblogaeth y myfyrwyr a'r adolygiad

1.1 Gwybodaeth gryno am y darparwr, megis fframwaith strategol a strwythur cyfundrefnol

1 Sefydlwyd Prifysgol De Cymru drwy gyfuno Prifysgol Morgannwg a Phrifysgol Cymru, Casnewydd yn 2013. Mae gan y Brifysgol gampysau ym Mhontypridd, Caerdydd a Chasnewydd. O ran nifer y myfyrwyr, y Brifysgol yw'r brifysgol ail fwyaf yng Nghymru. Y Brifysgol yw prif sefydliad Grŵp sy'n cynnwys Y Coleg Merthyr Tudful a Choleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru (CBCDC). Mae'r ddau'n is-gwmnïau y mae'r Brifysgol yn berchen arnynt yn gyfan gwbl.

2 CBCDC yw Conservatoire Cenedlaethol Cymru ac mae'n un o'r prif ddarparwyr yn y DU o ran hyfforddiant ymarferol arbenigol yn seiliedig ar berfformio ym myd cerddoriaeth, drama a galwedigaethau perthnasol eraill. Mae gan CBCDC 897 o fyfyrwyr ar hyn o bryd, ac mae'n darparu cyrsiau gradd a ddyfernir gan Brifysgol De Cymru. Dirprwywyd y cyfrifoldeb iddo am ansawdd a safonau'r cyrsiau. Mae'n gweithio o fewn fframwaith y Brifysgol ac mae'n gweithredu ei Gorff Llywodraethu a'i Fwrdd Academiaidd ei hun. Yn ystod y flwyddyn academiaidd gyfredol, cafodd CBCDC adolygiad llwyddiannus gan Music Quality Enhancement (MusiQue), sef corff achredu a gwerthuso annibynnol allanol ym maes cerddoriaeth yn Ewrop sy'n gofrestredig ar y Gofrestr Ewropeaidd ar gyfer Sicrhau Ansawdd.

3 Disgrifir Y Coleg Merthyr Tudful fel coleg cymunedol sy'n cyfrannu at yr economi yn rhanbarth Blaenau'r Cymoedd. Mae'n cynnig ystod o gyrsiau i israddedigion a ddilysir gan y Brifysgol.

4 Cenhadaeth y Brifysgol yw "Newid bywydau a'n byd er mwyn gwell yfory: Bydd PDC yn brifysgol flaenllaw yn y DU sy'n cael yr effaith gadarnhaol fwyaf ymhlith ein myfyrwyr, ein partneriaid a'n cymunedau". Mae strategaeth y Brifysgol, Strategaeth PDC 2030, a lanswyd yn fuan yn 2020, yn nodi cyfeiriad y Brifysgol ar gyfer y degawd nesaf. Mae cynllun gweithredu a Grŵp Gweithredu Strategaeth i dywys cam nesaf y gwaith sy'n ymwneud â phedair ffrwd waith allweddol mewn pynciau megis egwyddorion cynllunio cwricwlwm, effaith a chyrhaeddiad gwaith ymchwil, datblygu sgiliau mentergarwch a rheoli rhanddeiliaid. Cefnogir y cynllun strategol gan bedwar cynllun pellach: Cynllun Pobl, Cynllun Ystadau, Cynllun Digidol a Chynllun Cydraddoldeb Strategol.

5 Mae darpariaeth academiaidd y Brifysgol wedi ei threfnu'n dair cyfadran, sef Cyfrifiadureg, Peirianeg a Gwyddoniaeth; Busnes a'r Diwydiannau Creadigol; a Gwyddorau Bywyd ac Addysg. At ddibenion rheoli a gweinyddu, mae'r cyfadranau wedi eu trefnu'n ysgolion a meysydd astudio. Arweinir pob cyfadran gan ddeon sy'n aelod o'r Uwch Dîm Rheoli ac yn adrodd i'r Dirprwy Is-Ganghellor.

6 Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn gyfrifol am yr oruchwyliaeth a'r cyfeiriad strategol, tra bo'r Tîm Gweithredol, dan gadeiryddiaeth yr Is-Ganghellor, yn arwain y gwaith o reoli'r sefydliad. Mae'r Tîm Gweithredol yn cynnwys y Dirprwy Is-Ganghellor, y Prif Swyddog Gweithredu, y Dirprwy

Is-Ganghellor (Arloesi ac Ymgysylltu), y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil), y Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a'r Prif Swyddog Cyllid. Cefnogir y Tîm Gweithredol gan Uwch Dîm Rheoli ehangach y Brifysgol. Y Bwrdd Academiaidd yw'r corff academiaidd allweddol a gefnogir gan nifer o is-bwyllgorau/grwpiau (gwelwch baragraff 22).

7 Dyma rai o'r newidiadau nodedig a wnaed ers yr adolygiad blaenorol a gafwyd gan QAA yn 2015: penodwyd Cadeirydd newydd ar y Bwrdd Llywodraethwyr, ac hefyd Is-Ganghellor, Dirprwy Is-Ganghellor a Phrif Swyddog Gweithredu newydd; gostyngwyd nifer y cyfadrannau o bedair i dair; sefydlwyd Cofrestrfa Academiaidd; agorwyd ac, wedi hynny, caewyd campws cangen yn Dubai; a lansiwyd Strategaeth PDC 2030 newydd gydag is-strategaethau a chynlluniau cysylltiedig.

1.2 Cyfansoddiad poblogaeth y myfyrwyr, a thueddiadau allweddol a newidiadau a ddisgwyliar o fewn y boblogaeth honno, gan gynnwys gwybodaeth am gadwraeth, cynnydd a chanlyniadau

8 Ym mlwyddyn academiaidd 2020-21, roedd gan y Brifysgol gyfanswm o 31,440 o fyfyrwyr cofrestredig ac, o'r rhain, roedd 8,290 yn astudio dramor. Mae nifer ei myfyrwyr yn y DU wedi parhau'n weddol sefydlog dros y pum mlynedd diwethaf. Ar sail gyfwerth ag amser llawn (cyfanswm y myfyrwyr wedi eu cyfrif ar sail gyfwerth ag amser llawn), mae gan y Brifysgol 17,830 o fyfyrwyr. Unwaith eto, mae cyfanswm y myfyrwyr ar sail gyfwerth ag amser llawn wedi parhau'n weddol sefydlog dros yr un cyfnod. Mae'r Brifysgol wedi gweld gostyngiad yn y nifer o gofrestrïadau myfyrwyr rhan amser oherwydd newidiadau yn ei threfnau ffioedd; ond, mae'n ffaith o hyd mai'r Brifysgol yw'r darparwr addysg ran amser ail fwyaf yng Nghymru. Mae'r Brifysgol wedi gweld cynnydd yn y nifer o gofrestrïadau myfyrwyr rhyngwladol, ac mae'r cynnydd hwn wedi parhau yn 2021-22 gyda chynnydd yn y ceisiadau ar gyfer 2022-23. Ar hyn o bryd, mae ganddi 300 o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig.

9 Mae'r Brifysgol wedi wynebu rhai heriau o ran nifer y cofrestrïadau myfyrwyr israddedig oherwydd y cynnydd yn y gystadleuaeth mewn marchnadoedd yn rhanbarth lleol y Brifysgol a'r gostyngiad yn nifer y myfyrwyr mewn rhai meysydd astudio. Fodd bynnag, ar y cyfan mae nifer y myfyrwyr israddedig llawn amser wedi parhau'n uchel oherwydd cynyddiadau parhaus yn y ddarpariaeth a gomisiynir mewn iechyd a chynnydd yn y nifer o fyfyrwyr ar gyrsiau Prentisiaeth Gradd. Mae'r nifer o fyfyrwyr ôl-raddedig a addysgir wedi cynyddu dros y cyfnod o bum mlynedd yn unol â'r tyfiant yn y sector.

10 Mae Strategaeth PDC 2030 wedi ei thanategu gan saith ffactor llwyddiant allweddol sy'n canolbwyntio ar sicrhau'r llwyddiant a'r cyfleoedd gorau i raddedigion, a ffactor penodol sy'n ymwneud â chynyddu cyfran y Brifysgol yn y farchnad yng Nghymru ac o fewn y grŵp o sefydliadau sy'n cystadlu â hi, o un flwyddyn i'r nesaf. Mae ffactorau llwyddiant allweddol eraill yn ymwneud â gwella cadwraeth, boddhad a chanlyniadau'r myfyrwyr.

11 Mae cyfraddau cadw a chwblhau'r Brifysgol yn dangos gwelliant dros y cyfnod o bum mlynedd o 2015-16 i 2019-20 mewn perthynas â meincnodau'r sector. Mae'r Brifysgol yn gwneud rhagor o waith i ddeall perfformiad fesul maes astudio a gwahaniaethau rhwng grwpiau demograffig yn fanylach. Mae'r Brifysgol yn amcanu i sicrhau bod ei chyfran o fyfyrwyr israddedig llawn amser sy'n parhau i astudio cyrsiau addysg uwch blwyddyn ar ôl iddynt gofrestru yn uwch na chyfartaledd y sector.

1.3 Sylwadau ar y gwaith paratoi ar gyfer yr adolygiad, yn cynnwys y ffordd y mae'r darparwr a'i fyfyrwyr wedi cydweithio mewn partneriaeth i baratoi ar gyfer yr adolygiad

12 Sefydlodd y Brifysgol grŵp llywio i oruchwylio ei gwaith o baratoi ar gyfer yr adolygiad. Roedd y grŵp, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor, yn tynnu ei aelodau o blith y staff

academaidd a'r staff cymorth proffesiynol ac roedd y rhain yn cynnwys Llywydd Undeb y Myfyrwyr a chynrychiolwyr y colegau addysg bellach sy'n bartneriaid cydweithredol i'r Brifysgol a'i Choleg Llwybr Dilyniant. Roedd y Grŵp Llywio'n rhoi adroddiadau ffurfiol i'r Bwrdd Academaidd a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd. Darparwyd sesiynau briffio i'r Bwrdd Llywodraethwyr a phwyllgorau eraill ar lefelau'r cyfadranau a'r Brifysgol. O safbwynt y partneriaid cydweithredol, cafodd y Grŵp Goruchwylio Partneriaid a'r Is-bwyllgor Ansawdd Partneriaethau eu briffio hefyd. Roedd y Brifysgol yn hyrwyddo ymgysylltiad â'r staff trwy gynnal sesiynau briffio agored galw heibio, gwefan benodol ar gyfer yr adolygiad, diweddariadau ar flog yr Is-Ganghellor a phostiadau ar fewnwyd y Brifysgol.

13 Sicrhaodd y Brifysgol gyfranogaeth y corff myfyrwyr mewn nifer o ffyrdd yn ei gwaith o baratoi ar gyfer yr adolygiad. Roedd y Prif Swyddog Gweithredu a Llywydd Undeb y Myfyrwyr yn aelodau o'r Grŵp Llywio Adolygiad Gwella Ansawdd. Mae'r pwyllgorau allweddol lle cyflwynwyd diweddariadau rheolaidd yn cynnwys myfyrwyr fel aelodau - y Bwrdd Academaidd, y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a Phwyllgorau'r Cyfadranau. Yn ogystal, roedd yr Hwylusydd Sefydliadol yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gydag Undeb y Myfyrwyr, oedd yn cynnwys Tîm Llais y Myfyrwyr i sicrhau ymgysylltiad a rhannu gwybodaeth am gyflwyniad y Brifysgol ac i gefnogi'r gwaith o baratoi cyflwyniad y myfyrwyr. Cyhoeddwyd cyfres o gyfathrebiadau i'r myfyrwyr ar y porth myfyrwyr.

14 Croesawodd y Brifysgol yr hyblygrwydd a gafwyd yn sgil yr addasiadau a wnaed i'r broses adolygu ar gyfer 2021-22 drwy gynhyrchu un ddogfen gyflwyniad gyfundol oedd yn cynnwys dadansoddiad hunanwerthuso ac adroddiad newidiadau.

15 Gwnaeth Undeb y Myfyrwyr arolwg o'r corff myfyrwyr oedd yn cynnwys myfyrwyr mewn rolau cynrychioli a'r myfyrwyr ôl-raddedig. Roedd yr arolwg hwn yn sail ar gyfer cyflwyniad ar ffurf podlediad gyda sylwadau atodol.

1.4 Crynodeb o'r camau dilyniant a gymerwyd gan y darparwr yn dilyn yr adolygiad blaenorol

16 Cafodd y Brifysgol ei hadolygiad blaenorol gan QAA yn 2015 a nododd ddau faes o arfer da a naw argymhelliad. Rhoddodd y Brifysgol dystiolaeth i'r tîm adolygu i ddangos sut roedd wedi ymateb i bob un o'r argymhellion a gafwyd.

17 Roedd tri o'r argymhellion yn ymwneud yn benodol â graddau ymchwil: sicrhau bod yr holl fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn cael eu cynrychioli'n briodol ac yn effeithiol, cadw cofnodion o'r hyfforddiant i oruchwylwyr ymchwil ôl-raddedig, a sicrhau bod yr holl gyrsiau gradd meistr drwy ymchwil a doethuriaethau proffesiynol wedi eu rheoleiddio'n briodol o fewn y fframwaith dyfarniadau. Mewn perthynas â chynrychiolaeth myfyrwyr, gwnaethpwyd newidiadau gan y Brifysgol yn 2015 i sicrhau bod ei phwyllgorau presennol bryd hynny (a'r pwyllgorau a grëwyd ers hynny) yn cynnwys cynrychiolwyr y myfyrwyr ymchwil. Paratoir cynrychiolwyr newydd y myfyrwyr yn briodol ar gyfer eu rolau ar bwyllgorau, ac mae'r Ysgol Graddedig yn cyflwyno cynrychiolwyr newydd i'r myfyrwyr presennol yn eu cyfadran. Mewn perthynas â chadw cofnodion o'r hyfforddiant i oruchwylwyr, mae Pwyllgorau Graddau Ymchwil y Cyfadranau'n gyfrifol am ganfod a yw goruchwylwyr wedi cyflawni hyfforddiant neu a yw cyfnod eu hyfforddiant wedi dod i ben, a rhoddir gwybod am hyn i Dîm Gweithredol y Gyfadran. Yn olaf, gwnaethpwyd newidiadau i'r rheoliadau yn 2015 mewn ymateb i'r argymhelliad a oedd yn ymwneud â'r rheoliadau ar gyfer cyrsiau gradd meistr drwy ymchwil a chysiau gradd doethuriaeth broffesiynol. Erbyn hyn, mae'r rheoliadau ar gyfer cyrsiau a addysgir yn egluro natur y cyrsiau gradd meistr drwy ymchwil ac yn nodi mai dim ond yr elfennau a addysgir o gyrsiau gradd doethuriaeth broffesiynol sy'n atebol i'r rheoliadau ar gyfer cyrsiau a addysgir, gan groesgyfeirio â'r Rheoliadau Graddau Ymchwil lle bo'n briodol.

18 Roedd dau o'r argymhellion a gafwyd yn 2015 yn ymwneud â'r wybodaeth am ddarpariaeth y darparwr: pryderon ynglŷn â chywirdeb yr wybodaeth a gyhoeddir gan bartneriaid, a diffyg proses systematig i fonitro'r wybodaeth am fodiwlau a chyrsgiau a gyhoeddir gan y Brifysgol. Canfu'r Brifysgol fwch posibl yn y gwaith sy'n ymwneud â'r broses archwilio i fonitro'r wybodaeth a gyhoeddir gan bartneriaid, a rhoddwyd y cyfrifoldeb i'r Is-bwyllgor Ansawdd Partneriaethau am oruchwylio'r gweithgaredd hwn. Yn ogystal, datblygwyd a gweithredwyd canllawiau marchnata penodol i bob partner sy'n cynnwys cyfrifoldebau manwl am gywirdeb yr wybodaeth gyhoeddedig. Mae'r Brifysgol wedi cymryd nifer o gamau i sicrhau bod yr wybodaeth am y cyrsiau'n parhau'n gywir ac yn berthnasol, ac mae'r Adran Marchnata a Denu Myfyrwyr yn chwarae rôl allweddol yn y gwaith o adolygu'r holl wybodaeth am y cyrsiau sydd ar gael mewn print ac ar-lein. Yn un o'r argymhellion a oedd yn ymwneud â gwybodaeth, nodwyd lefel isel iawn o ymgysylltiad gan y myfyrwyr ag adroddiadau'r arholwyr allanol. Erbyn hyn, mae adroddiadau'r arholwyr allanol ar gael ar rith-amgylchedd dysgu pob cwrs ac mae llawlyfrau'r cyrsiau'n cynnwys gwybodaeth ynglŷn â sut i'w canfod. Cafodd hyn ei wirio yn rhan o Archwiliad Ansawdd Sefydliadol yn 2020-21.

19 Canfu'r adolygiad a gafwyd yn 2015 nad oedd proses systematig a rheolaidd ar lefel y Brifysgol i gofnodi a monitro prydlondeb yn ogystal â natur yr adborth ar asesiadau. I fynd i'r afael â'r pryderon yn ymwneud â chlystyru asesiadau, mae'r Brifysgol wedi cyflwyno ymarfer blynyddol i drafod a chymeradwyo asesiadau, ac mae wrthi'n gwerthuso pa mor effeithiol yw'r broses yn y flwyddyn academaidd gyfredol. Mae'r Brifysgol wedi gosod dyddiad cau o 20 diwrnod gwaith ar gyfer dychwelyd gwaith wedi ei farcio. Bwriad adolygiad o Dariff Asesu'r Brifysgol a gafwyd yn ddiweddar oedd hybu'r lefel o gysondeb rhwng modiwlau ar draws y cyfadrannau a lleihau'r risg o orlwytho'r myfyrwyr a'r staff academaidd gydag asesiadau. Mae proses fonitro barhaus y Brifysgol, a gyflwynwyd yn 2018/19, yn galluogi i brosesau, megis y rheiny sy'n ymwneud ag asesu, gael eu monitro'n barhaus (gwelwch baragraffau 23 a 24), ac mae hyn yn cynnwys adroddiadau ar lefelau'r cyfadrannau a'r Bwrdd Academaidd.

20 Canfu'r adolygiad blaenorol nad oedd rhai o'r manylebau cwrs a gedwir ar gronfa ddata ganolog y Brifysgol bob amser wedi eu diweddarau ac nad oedden nhw'n cynnwys darpariaeth ansafonol. Sefydlwyd prosiect i sicrhau y cedwir cofnod diffiniedig o bob cwrs ac i adolygu ffeil pob cwrs i sicrhau ei bod yn cynnwys gwybodaeth am ddarpariaeth ansafonol.

21 Yn olaf, argymhellodd yr adolygiad a gafwyd yn 2015 bod y Brifysgol yn adolygu ei pholisi diwydrwydd dyladwy a'i gweithdrefnau cysylltiedig ar gyfer partneriaid cydweithredol. Mewn ymateb i hyn, mae'r Brifysgol wedi adolygu'r broses ar gyfer partneriaid a ddisgrifiwyd yn y Llawlyfr Ansawdd, ac mae wedi cynhyrchu Llawlyfr Partneriaethau ar wahân. Hefyd, gwnaethpwyd rhagor o waith i egluro'r prosesau.

2 Prosesau yn ymwneud ag ansawdd a safonau academiaidd

2.1 Nodweddion allweddol dulliau'r darparwr o reoli ansawdd a'r ffordd y mae'r myfyrwyr yn cyfranogi yn y gwaith o reoli ansawdd y cyfleoedd dysgu

22 Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol sy'n gyfrifol yn y pen draw am sicrhau ansawdd yn y Brifysgol. Dirprwyir y cyfrifoldeb hwn i Fwrdd Academiaidd y Brifysgol, sydd yn ei dro'n dirprwyo i'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, y Pwyllgor Gwella Dysgu ac Addysgu a'r Pwyllgor Ymchwil. Mae gan bob un o'r grwpiau hyn, yn cynnwys y Bwrdd Llywodraethwyr, un o swyddogion sabothol Undeb y Myfyrwyr yn aelod llawn. Ar lefel y cyfadrannau, mae'r strwythur yn adlewyrchu'r strwythur pwyllgorau ar lefel y Brifysgol, gyda Phwyllgorau Sicrhau Ansawdd y Cyfadrannau, Pwyllgorau Dysgu ac Addysgu'r Cyfadrannau a Phwyllgorau Graddau Ymchwil y Cyfadrannau, ac mae pob un ohonynt yn adrodd ar i fyny i'w rhiant-bwyllgor perthnasol. Mae'r prosesau ansawdd sydd ar waith yn y Brifysgol yn cael eu tywys gan y Llawlyfr Ansawdd a'r Llawlyfr Partneriaethau.

23 Ers blwyddyn academiaidd 2018-19, mae'r Brifysgol wedi bod yn gweithredu dull o sicrhau ansawdd sy'n ystyried risgiau, a'i phrif system o sicrhau ansawdd yw ei phroses fonitro parhaus. Mae hyn yn golygu nad yw'r adolygiadau o ansawdd y cyrsiau a'r modiwlau wedi eu cyfyngu i un pwynt amser unigol yn y flwyddyn academiaidd. Yn hytrach, mae cynlluniau gweithredu ar gyfer monitro parhaus yn cael eu diweddarau a'u hystyried drwy gydol y flwyddyn academiaidd.

24 Mae'r prif gyfrifoldeb am oruchwylio cyflawniad ac ansawdd y cynlluniau gweithredu, ar gyfer monitro parhaus ar lefel y cyrsiau, ar ysgwyddau'r Pwyllgorau Sicrhau Ansawdd ar lefel y cyfadrannau, ac yn arbennig eu his-grwpiau monitro parhaus, dan gadeiryddiaeth Dirprwy Ddeoniaid y Cyfadrannau. Yn ogystal â goruchwyliaeth ar lefel y cyfadrannau dros gynlluniau gweithredu'r cyrsiau, mae hefyd adroddiadau blynyddol a chynlluniau gweithredu ar lefelau'r ysgolion a'r cyfadrannau sy'n cael eu goruchwylio gan y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd. Mae crynodeb o'r adroddiadau monitro parhaus wedi ei gynnwys yn y Datganiadau Sicrwydd Blynyddol sy'n cael eu cadarnhau gan y Bwrdd Llywodraethwyr.

25 Mae adroddiad blynyddol am faterion ansawdd yn y Brifysgol wedi cael ei gynhyrchu ers 2019 gan y Bwrdd Academiaidd a'i is-bwyllgorau, yn ogystal â chynnwys adroddiadau ansawdd blynyddol Undeb y Myfyrwyr. Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn adolygu ei effeithiolrwydd bob pedair blynedd, ac mae'r Bwrdd Academiaidd yn adolygu ei effeithiolrwydd ei hun yn rhan o broses gyfatebol.

26 Mewn perthynas â chyfranogaeth y myfyrwyr, rheolir system gynrychiolaeth y myfyrwyr gan Undeb y Myfyrwyr. Mae dau fath o gynrychiolydd myfyrwyr, sef Cynrychiolwyr Llais y Myfyrwyr ar lefel y cyfadrannau a Chynrychiolwyr Cwrs ar lefel y cyrsiau. Mae Cynrychiolwyr Llais y Myfyrwyr yn eistedd ar bwyllgorau ar lefelau'r sefydliad a'r cyfadrannau. Hefyd, mae Cynrychiolwyr Llais y Myfyrwyr yn cwblhau prosiect ymchwil bob blwyddyn ac mae cyfle iddynt wneud argymhellion i'r Bwrdd Academiaidd. Etholir Cynrychiolwyr Cwrs gan eu cymheiriaid ac maent yn aelodau o Grwpiau Cyswllt Staff-Myfyrwyr y cyrsiau, sy'n cwrdd yn dymhorol. Mae Undeb y Myfyrwyr yn darparu hyfforddiant perthnasol a thrwyadl ar gyfer y ddwy rôl. Hefyd, telir y myfyrwyr i gymryd rhan mewn digwyddiadau dilysu a disgwylir y bydd rhywun yn gofyn eu barn yn rhan o'r broses ail-ddilysu.

27 Ymgynghorir â'r corff myfyrwyr yn ei gyfanrwydd drwy arolygon, a gydlynir drwy fecanwaith arolwg mewnol o'r enw 'LOOP'. Mae'r gyfres o gwestiynau a weinyddir drwy LOOP yn agored i'r myfyrwyr drwy'r flwyddyn gron, ond mae galwadau am ymatebion ym misoedd Tachwedd a Chwefror sy'n canolbwyntio'n bennaf ar restr fyrrach o gwestiynau adborth yng nghanol y tymor, a galwad arall gyda chyfres fwy o gwestiynau ar ddiwedd y flwyddyn addysgu. Hefyd, gallai gwasanaethau unigol, megis y llyfrgell, gynnal eu harolygon eu hunain, er bod datblygiadau diweddar - mewn ymateb i sôn gan y myfyrwyr eu bod wedi cael eu harolygu'n

ormodol - wedi arwain at roi system gymeradwyo ar waith i gydlynu'r gweithgareddau arolwg ar lefel y sefydliad.

28 Mae llwybrau cynrychiolaeth i fyfyrwyr ymchwil yn bodoli ar lefelau'r sefydliad a'r cyfadrannau. Mae Pwyllgor Ymchwil i'w gael sy'n cynnwys tri chynrychiolydd myfyrwyr ymchwil yn aelodau ac sy'n adrodd i'r Bwrdd Academaidd. Mae hefyd dri Phwyllgor Ymchwil Cyfadrannau sy'n adrodd i'r Pwyllgor Ymchwil canolog. Un o'r prif fecanweithiau i ymgysylltu â'r myfyrwyr ymchwil yw'r Ysgol Graddedigion a sefydlwyd yn 2018; mae ganddi ei Bwrdd ei hun sy'n adrodd i'r Pwyllgor Gwella Dysgu ac Addysgu.

29 Yn ddiweddar, mae'r Brifysgol wedi sefydlu'r Prosiect Cwricwlwm 2030 yn rhan o'i Chynllun Strategol 2030 i dywys ei gwaith o reoli'r dysgu a'r addysgu, ac mae'n bwriadu cynllunio'r addysgu ar y cyd â'i myfyrwyr. Lluniwyd y Prosiect Cwricwlwm 2030 gyda mewnbwn gan y myfyrwyr, yn cynnwys eu barn am y ffordd y gallent gymryd mwy o ran yn y gwaith o gynllunio'r cwricwlwm. Bellach, mae'r myfyrwyr yn cyd-gadeirio rhai o'r Grwpiau Gweithredu Strategol sy'n gyfrifol am weithredu'r amcanion strategol, gan sicrhau bod clust i lais y myfyrwyr a bod cysylltiad uniongyrchol â phrofiadau'r myfyrwyr o ddysgu ac addysgu. Mae aliniad ag egwyddorion Cwricwlwm 2030 yn adran ofynnol ar ddogfennau dilysu/ail-ddilysu cyrsiau sy'n sicrhau ei fod wedi ei ymwreiddio'n llawn.

30 Er bod gweithrediad y prosiect cwricwlwm newydd wedi ei oedi gan y pandemig, mae cynllun clir ar gyfer y dyfodol, a nododd y tîm adolygu'r dull cyson a chydlynol o integreiddio'r dull strategol newydd o ddysgu ac addysgu ymhob un o'u cyfarfodydd gyda staff o bob lefel ac hefyd rai o'r myfyrwyr. Felly, mae'r tîm adolygu'n **canmol** y ffocws clir sydd ar amcanion strategol ar draws y Brifysgol, a ddatblygwyd ac a weithredwyd mewn partneriaeth â'i myfyrwyr, sy'n sicrhau bod dull cydlynol ar waith o wella'r dysgu, yr addysgu a'r asesu.

2.2 Nodweddion allweddol y dulliau o osod, cynnal, adolygu ac asesu safonau academaidd

31 Mae gan y Brifysgol brosesau manwl o osod, cynnal, adolygu ac asesu safonau academaidd. Mae'r prosesau hyn wedi eu disgrifio yn ei Fframwaith Ansawdd sy'n cynnwys yr elfennau canlynol: y Rheoliadau Cyrsiau a Addysgir, y Rheoliadau Graddau Ymchwil, y Llawlyfr Ansawdd, y Llawlyfr Partneriaethau a Gweithdrefnau Academaidd Gorfodol a Rheoliadau Gwaith Achos Myfyrwyr. Gwneir yr oruchwyliaeth drwy graffu ar gyfres o adroddiadau blynyddol manwl gan y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a'r Bwrdd Academaidd. Mae'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd yn cynhyrchu ei adroddiad blynyddol ei hun i'r Bwrdd Academaidd sy'n rhoi crynodeb o'i fusnes yn ystod y flwyddyn flaenorol. Gwelir tystiolaeth bellach o oruchwyliaeth y Brifysgol dros safonau academaidd yn y Datganiadau Sicrwydd Blynyddol i'r Bwrdd Llywodraethwyr.

32 Yn ei Dadansoddiad Hunanwerthuso, mae'r Brifysgol yn canolbwyntio ar ei gwaith o weithredu dull effeithiol o sicrhau safonau academaidd sy'n ystyried risgiau. Rhoddodd y tîm adolygu ystyriaeth ofalus i'r dogfennau ysgrifenedig a ddarparwyd iddo fel tystiolaeth o'r dull hwn a thrafodd y profiad ohono gyda staff y Brifysgol a'i darparwyr partner. Mae'r dull o sicrhau ansawdd sy'n ystyried risgiau, a gyflwynwyd i ddechrau yn 2018-19, yn ganolog i'r prosesau o ddilysu, monitro'n barhaus, ac adolygu ac ail-ddilysu cyrsiau. Ar yr un pryd, ceisiodd y Brifysgol sicrhau bod cyfeiriad strategol clir yn eu penderfyniadau ynglŷn â pha gyrsiau i'w darparu, a pha gyrsiau i roi'r gorau i'w darparu, yn ogystal ag yng nghynllunio y cyrsiau hynny. Mae'r broses hon yn cynnwys proses gynllunio strategol flynyddol ar lefel y cyfadrannau, o dan oruchwyliaeth y Grŵp Goruchwyllo Portffolio.

33 Mae'r broses o gymeradwyo cyrsiau newydd yn cynnwys dau gam sydd wedi eu disgrifio yn y Llawlyfr Ansawdd: mae'r Grŵp Goruchwyllo Portffolio'n ystyried cynigion am gyrsiau newydd drwy'r Ffurflen Cynnig Cwrs Cychwynnol ac yna cynhelir panelau dilysu i gymeradwyo cyrsiau unigol. Mae'r gyfadrannau yn gyfrifol am benderfynu a yw'r cynnig yn risg isel, canolog neu uchel

trwy ddefnyddio'r meini prawf sydd wedi eu nodi yn y Llawlyfr Ansawdd, ac yna mae'r Grŵp Goruchwylio Portffolio'n cadarnhau neu'n newid yr asesiad hwn. Mae cynigion sydd â sgorau risg uchel yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Brifysgol; mae cynigion risg isel a chanolig yn amodol ar gymeradwyaeth gan y gyfadran berthnasol. Gwelodd y tîm adolygu nifer o esiamplau o gynigion am gyrsiau newydd ac adroddiadau gan y panelau dilysu oedd yn dangos gweithrediad y broses.

34 Os yw cwrs i gael ei gau, rhaid i arweinydd y cwrs gwblhau Cynllun Gweithredu ar gyfer Cau Cwrs ac yna rhaid i'r Grŵp Goruchwylio Portffolio gymeradwyo hwn a rhaid i Bwyllgor Sicrhau Ansawdd y Gyfadran ei fonitro (lle bo'n briodol). Nod y cynllun yw sicrhau bod buddiannau'r ymgeiswyr/myfyrwyr yn cael eu diogelu.

35 Un o nodweddion amlwg y dull sy'n ystyried risgiau y mae'r Brifysgol yn ei ddefnyddio i sicrhau ansawdd yw'r broses fonitro barhaus a gyflwynwyd i amnewid prosesau monitro blynyddol mwy traddodiadol. Mae gofyn i bob arweinydd cwrs gynhyrchu adroddiad a chynllun gweithredu: ac elfen 'barhaus' hyn yw bod y rhain yn cael eu hadolygu a'u diweddarau fel y bo raid yn ystod y flwyddyn. Cyflawnir y gwaith o fonitro'r adroddiadau a'r cynlluniau gweithredu hyn gan Bwyllgorau Sicrhau Ansawdd y Cyfadranau sy'n cael eu cefnogi erbyn hyn gan is-grwpiau sydd wedi eu ffurfio'n benodol i fynd i'r afael â monitro parhaus. Mae adroddiadau ar lefel y cyrsiau'n arwain at adroddiad blynyddol ar lefelau'r ysgolion ac yna'r cyfadranau sydd wedyn yn bwydo i mewn i adroddiadau a roddir i'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a'r Bwrdd Academaidd.

36 Mae dwy elfen o'r broses fonitro barhaus yn arwyddocaol: y sgôr risg ar gyfer pob cwrs a'r calendr data blynyddol. Mae gofyn i bob arweinydd cwrs roi sgôr risg i'w cyrsiau - isel, canolig neu uchel; yna mae Pennaeth yr Ysgol yn adolygu'r sgôr hwn ac naill ai'n ei gadarnhau neu'n ei ddiwygio. Lluniwyd y broses hon o sgorio risgiau i yrru prosesau eraill, yn cynnwys yr hollbwysig ail-ddilysu neu ddilysu parhaus. I helpu'r arweinwyr cwrs i roi sgorau risg i'w cyrsiau, maen nhw'n defnyddio matrices risgiau. Mae'r calendr data blynyddol yn dabl sy'n dangos fesul mis pa ddata newydd fydd ar gael y mis hwnnw.

37 Darparodd y Brifysgol gyfres o ddogfennau i'r tîm adolygu oedd yn dangos gweithrediad monitro parhaus ar lefelau'r cyrsiau, yr ysgolion, y cyfadranau a'r Brifysgol. Mae'r adroddiadau hyn yn dangos bod y broses yn galluogi i'r Brifysgol ganfod y cyrsiau hynny sydd angen ymyrraeth gynnar. Rhoddodd y staff, gan gynnwys staff y colegau partner, ddarlun cyson o brofiad cadarnhaol o gymryd rhan yn y broses, oedd yn cyferbynnu â'u profiadau o gwblhau adroddiadau monitro blynyddol ar ddiwedd pob blwyddyn. Roedden nhw'n tynnu sylw at y buddion iddyn nhw o allu rhoi ystyriaeth yn ystod y flwyddyn i effeithiolrwydd eu cwrs ac ar gael mecanwaith oedd yn galluogi iddynt gofnodi'r ystyriaethau hynny'n gryno a chanfod cyfleoedd i wella.

38 Mewn perthynas â'r ddarpariaeth yng ngholegau partner y Brifysgol, roedd nifer o broblemau sy'n ymwneud â'r broses fonitro barhaus wedi eu nodi gan y Brifysgol yn ei Dadansoddiad Hunanwerthuso a'i thystiolaeth ategol. Roedd trafodaeth â staff y colegau partner ac â staff y Brifysgol sy'n cefnogi darpariaeth gydweithredol yn dangos bod cynnydd arwyddocaol i'w weld yn yr ymdriniaeth â'r problemau hyn, sy'n safbwynt a adlewyrchwyd yn yr Adroddiad Monitro Parhaus Blynyddol o Bartneriaethau ar gyfer 2020-21. Cefnogir staff y colegau partner gan hyfforddiant ac maent yn ei werthfawrogi.

39 Mae gan y Brifysgol brosesau sefydledig ar gyfer gwneud addasiadau i gyrsiau a modiwlau. Defnyddir matrices addasiadau i benderfynu ar y math o broses gymeradwyo a chefnogir hyn gan ganllawiau i staff.

40 Mae'r broses o adolygu ac ail-ddilysu cyrsiau'n cychwyn gydag adolygiad beirniadol (neu hunanwerthusiad) a wneir gan dîm y cwrs sy'n cynnwys cwblhau templed defnyddiol sy'n llawn gwybodaeth. Yna adolygir hwn gan Banel Adolygu Beirniadol i benderfynu a ddylai'r cwrs fynd drwy ail-ddilysu neu a ydyw'n gymwys i gael ei ddilysu'n barhaus. Yn arwyddocaol, mae'r Brifysgol wrthi'n dechrau defnyddio'r broses hon i gasglu tystiolaeth i ddangos pa mor effeithiol

y mae cyrsiau'n ymgysylltu ag Egwyddorion Cwricwlwm 2030. Cynhelir amserlen ail-ddilysu gan y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd. Tanategir y broses o adolygu cyrsiau gan asesiad risg felly gall y gofyniad safonol am adolygiad bob chwe blynedd gael ei ostwng i gyrsiau a bennir fel rhai risg uchel a'u hymestyn - drwy ddefnyddio'r hyn y mae'r brifysgol yn ei alw'n 'ddilysu parhaus' - i gyrsiau a ystyrir yn rhai risg isel.

41 Pwysleisiodd y staff uwch hyblygrwydd y broses, oedd yn caniatáu ail-ddilysu llawn pan ystyriwyd hyn yn briodol i gwrs, gan gynnwys ymdrin ag anghenion y farchnad neu newidiadau yng ngofynion cyrff PSRB. Roeddent hefyd yn ystyried bod y drefn ar gyfer gwneud addasiadau mawr wedi gweddnewid y dull gan sicrhau ei fod yn ddull effeithiol o wneud newidiadau heb wneud ail-ddilysiad llawn er mwyn sicrhau bod y cwrs yn parhau'n gywir. Dywedodd arweinwyr cwrs eu bod wedi cael y broses ail-ddilysu'n werthfawr o ran galluogi i'r ddarpariaeth gael ei hunanwerthuso'n effeithiol, gan gynnwys defnyddio data'n effeithiol ac ymdrin â'r hyn roedd y diwydiant ei eisiau gan y cyrsiau o ran graddedigion y Brifysgol.

42 Mae gan y Brifysgol brosesau manwl sy'n rheoli pob agwedd o'r gwaith asesu. Roedd y Dadansoddiad Hunanwerthuso'n canolbwyntio ar newidiadau a wnaed i sicrhau bod agweddau allweddol o'r broses asesu'n cyfateb â Strategaeth 2030 y Brifysgol a'r dogfennau ategol.

43 Ym mis Mai 2022, cymeradwyodd y Brifysgol Bolisi Asesu ar gyfer Dysgu newydd. Mae hwn yn dangos dull cadarnhaol, sy'n edrych tuag at y dyfodol, o asesu a hybu dysgu'r myfyrwr, yn ogystal â sicrhau bod canlyniadau asesiadau'n ddibynadwy ac yn ddiogel. Mae'n cynnwys tabl gweithredu sydd hefyd yn nodi prosesau a chanllawiau i gefnogi'r staff ac i hwyluso monitro. Yn 2021, adolygodd y Brifysgol hefyd ei Thariff Asesu, gyda newidiadau wedi eu cymeradwyo ac yn barod i'w gweithredu ar ddechrau sesiwn academaidd 2021-22.

44 Ystyrir camymddwyn academaidd yn rheoliadau'r Brifysgol sydd wedi eu manylu yn y Rheoliadau a Threfnau Camymddwyn Academaidd sy'n benodol berthnasol i flwyddyn academaidd 2021-22. Goruchwylir camymddwyn academaidd drwy adroddiad blynyddol manwl i'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a'r Bwrdd Academaidd. Cynhyrchir yr adroddiadau hyn drwy waith y Pwyllgor Camymddygiad Academaidd a'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr (sy'n is-bwyllgor i'r Pwyllgor Gwella Dysgu ac Addysgu). Siaradodd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw mewn ffordd gadarnhaol am eu profiadau o'r gefnogaeth y mae'r Brifysgol yn ei rhoi iddynt i'w helpu i ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt a beth yw camymddwyn academaidd.

45 Mae'r Brifysgol wedi llofnodi Siarter Uniondeb Academaidd QAA ac mae wedi dadansoddi bylchau yn ei harferion ei hun o'u cymharu â'r Siarter, gan roi ystyriaeth i'r arweiniad sydd yn ail argraffiad cyhoeddiad 'Twyll Contract' QAA. Mae hwn yn ddarn hynod ddifrifol a manwl o waith gan y Brifysgol sy'n rhoi cynigion eang i wneud rhagor o waith i gryfhau arferion y Brifysgol, gan gynnwys materion fel ymchwilio atebion technolegol i ganfod a yw myfyrwyr wedi defnyddio melinau traethodau.

46 Mae gan y Brifysgol brosesau sefydledig i sicrhau bod arbenigedd allanol yn cael ei ddefnyddio wrth gynllunio, cymeradwyo a darparu cyrsiau. Yn 2019, cyflwynodd y Brifysgol system arholwyr allanol ddwy haen: Arholwyr Allanol Pwnc (sy'n mynd i'r Byrddau Asesu Pwnc) ac Uwch-arholwyr Dyrchafu a Dyfarnu sydd â'r rôl o helpu'r Brifysgol i sicrhau bod y broses asesu a dyrchafu'n cael ei gweithredu yn unol â pholisïau a rheoliadau'r Brifysgol. Sefydlwyd cronfa o wyth 'Uwch-arholwr' oedd heb eu dyrannu i gyfadranau unigol er mwyn hwyluso graddnodi ar draws y Brifysgol.

47 Mae'r Llawlyfr Ansawdd yn nodi manylion y broses benodi, tymor mewn swydd, ymsefydliad a hyfforddiant, a chyfrifoldebau'r arholwyr allanol. Mae Llawlyfr i Arholwyr Allanol clir a thrwyadl yn cynnwys gwybodaeth fanylach am y rolau a'r cyfrifoldebau (gan wahaniaethu rhwng y ddwy rôl, lle bo'n briodol). Rhoddir sesiwn hyfforddi flynyddol hefyd i arholwyr allanol. Anfonir copi o adroddiad y flwyddyn flaenorol i arholwyr allanol newydd.

48 Mae gofyn i bob arholwr allanol gyflwyno adroddiad blynyddol gan ddefnyddio templed safonol, ac mae ei gynnwys yn gyson ag arferion y sector. Cyflwynir adroddiadau gan ddefnyddio system ar-lein. Mae gofyn i dimau'r cyrsiau, yr ysgolion a'r cyfadranau ystyried yr adborth gan yr arholwr allanol yn rhan o'r broses fonitro barhaus. Mae'r arholwyr allanol yn derbyn ymateb ysgrifenedig gan y sefydliad sy'n mynd i'r afael ag unrhyw faterion a godir yn eu hadroddiad. Mae'r adroddiadau cryno blynyddol yn dangos bod y Brifysgol yn monitro cyfraddau cwblhau adroddiadau'r arholwyr allanol a bod ganddi ddealltwriaeth lwyr o'r rhesymau pam nad yw adroddiadau wedi cael eu cwblhau.

49 Mae'r adroddiadau ar gael i'r myfyrwyr ar y rhith-amgylchedd dysgu, a gwnaeth y Brifysgol archwiliad ansawdd sefydliadol ym mis Tachwedd 2020 i adolygu i ba raddau yr oedd hyn yn cael ei gyflawni, a gwnaethpwyd tri argymhelliad.

50 Yn ei Dadansoddiad Hunanwerthuso, nododd y Brifysgol yr anawsterau a gafodd o ran darparu adroddiad trosolwg ar wahân am weithgareddau cydweithredol oherwydd diffyg manylion mewn adroddiadau gan arholwyr allanol a oedd yn ymwneud â darpariaeth gydweithredol. Cymerwyd camau i fynd i'r afael â hyn drwy adolygu'r templed ar gyfer adroddiadau arholwyr allanol, gan gynnwys gwneud y gofyniad am wybodaeth yn ymwneud â darpariaeth gydweithredol yn orfodol o 2020-21 ymlaen. Yn ogystal, roedd y dystiolaeth a ddarparwyd i'r tîm adolygu'n awgrymu bod rhai o'i phartneriaid cydweithredol wedi gweld yr adborth yn llai gwerthfawr os nad oedd yr arholwyr allanol wedi dangos yn glir pa sylwadau oedd yn ymwneud â'r coleg penodol.

51 Aeth y tîm adolygu ati gyda staff y colegau partner a'r staff yn y Brifysgol sy'n gyfrifol am y partneriaid hynny, i archwilio'r broblem gyda'r adborth i bartneriaid unigol. Roedd aelodau o staff y partneriaid yn cydnabod y broblem ac yn dweud bod gwaith yn cael ei wneud i ymdrin â hyn. Roedd staff y Brifysgol yn glir hefyd bod camau y gallent eu cymryd pan oedd problemau'n codi, yn cynnwys camau gan Swyddog Cyswllt y partner i gael sgwrs â'r arholwr allanol er mwyn cael gwybodaeth fwy eglur neu, os oedd rhaid, ddychwelyd yr adroddiad at yr arholwr allanol i roi rhagor o wybodaeth. Dywedodd y staff bod camau eraill yn cael eu cymryd, gan gynnwys adolygiad pellach o'r templed ar gyfer adroddiadau arholwyr allanol ar gyfer 2021-22 a chanolbwyntio ar y mater yn ystod y sesiwn hyfforddi flynyddol i arholwyr allanol. Mae'r templed adroddiad safonol yn dangos yn glir bod gan y Brifysgol hawl i ofyn i arholwr allanol ehangu ar eu sylwadau (am unrhyw agwedd o'r adroddiad). Ar sail ei drafodaethau gyda'r staff a'r dystiolaeth a ddarparwyd iddo, daeth y tîm adolygu i'r casgliad bod y Brifysgol yn cymryd gofal i fynd i'r afael â'r broblem, ac mae'r tîm yn **cadarnhau** r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod adroddiadau arholwyr allanol yn gwahaniaethu'n eglur rhwng y ddarpariaeth ar gampws y Brifysgol a honno a ddarperir ar gampwsau pob un o'i cholegau partner.

52 Mae Dadansoddiad Hunanwerthuso'r Brifysgol yn dangos yn glir ei bod wedi ymateb yn strategol i'r pandemig mewn dwy ffordd benodol: drwy ddatblygu a gweithredu dull 'dim anfantais', a thrwy ddatblygu egwyddorion a fframwaith o'r enw DEAL (Digitally Enabled Active Learning / Dysgu Gweithredol wedi'i Alluogi'n Ddigidol) a luniwyd i dywys y trawsnewidiad i ddysgu o bell sy'n gynhwysol ac yn hygyrch ac i ddarparu'r dysgu hwnnw.

53 Nododd y tîm adolygu dair agwedd benodol o'r ffordd yr ymatebodd y Brifysgol i heriau'r pandemig: Yn gyntaf y ffordd yr oedd pob ailadroddiad o'i dull 'dim anfantais' wedi ei hysbysu'n estynedig gan ganllawiau ac arferion y sector yn ogystal â thrwy ymgynghori a chydweithio â'r staff, y myfyrwyr, Undeb y Myfyrwyr, yr arholwyr allanol a'r cyrff PSRB. Yn ail, y ffordd ofalus a systematig y sicrhodd fod ei myfyrwyr a'i rhanddeiliaid eraill wedi derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf bob amser am y dull a'r defnydd posibl a wneir ohoni. Ac yn drydydd, y gwerthusiad manwl o'i dull ar sail tystiolaeth, gan gynnwys drwy ddadansoddi data o flwyddyn academiaidd 2019-20.

54 Lluniwyd DEAL i wneud cyrsiau'n ddigon gwydn i ymdopi â'r elfennau dysgu o bell, dychwelyd mewn rhyw ffordd i ddysgu ar y campws, a digwyddiadau yn y dyfodol a fydd yn ei gwneud hi'n angenrheidiol i gau neu gyfyngu ar agor campysau. Nododd y tîm adolygu bod datblygiad DEAL yn cynnwys ffocws ar gynhwysiant a lles ar gyfer y staff a'r myfyrwyr a ffocws ar ei weithrediad, gan gynnwys darparu hyfforddiant dwys ac adnoddau cefnogol i'r staff.

55 Gwnaeth y Brifysgol werthusiad eang o'r fframwaith DEAL ychydig amser cyn yr ymweliad adolygu ac mae wedi cytuno ar fersiwn newydd sef, yn ei hanfod, y dull EAL (Enabling Active Learning / Galluogi Dysgu Gweithredol) blaenorol, ar ei newydd wedd. Mae wedi ei lunio i fanteisio ar yr elfennau gorau a gafwyd drwy symud i ddulliau darparu digidol yn ystod dwy flynedd gyntaf y pandemig a chynnal ac adeiladu ar yr egwyddorion craidd, gydag addasiadau priodol, wrth dychwelyd i ddulliau darparu sydd yn bennaf yn rhai wyneb yn wyneb. Aeth y tîm adolygu ati i drafod y ffordd y mae'r Brifysgol wedi ymateb i'r pandemig gyda'r staff. Rhoesant ddarlun cadarnhaol o'r profiad o ddefnyddio DEAL i gefnogi eu gwaith, gan dynnu sylw at bwysigrwydd yr hyfforddiant staff oedd yn mynd law yn llaw ag o, yn cynnwys sesiynau dangos a thrafod

i rannu arferion gorau, a dangos bod rhai ohonynt yn gweld bod DEAL wedi creu cymuned myfyrwyr gryfach. Yng nghyd-destun canfyddiadau'r tîm adolygu mewn perthynas â'r dull 'dim anfantais' a'r Fframwaith DEAL, mae'r tîm yn **canmol** y ffordd ystyriol a gwybodus y mae'r Brifysgol wedi ymateb i'r pandemig, sydd wedi ei chyfathrebu'n effeithiol ac sydd wedi galluogi i'r Brifysgol ostwng yr effaith ar ei myfyrwyr a'i staff a darparu sylfaen gadarnhaol iddynt ar gyfer dysgu'n weithredol.

2.3 Y defnydd a wneir o bwytiau cyfeirio allanol mewn prosesau ansawdd

56 Mae gan y Brifysgol Fframwaith Ansawdd sydd wedi ei sefydlu'n dda ac mae wedi ei fireinio ymhellach ers yr adolygiad gan QAA yn 2015. Mae'r Rheoliadau Cyrsiau a Addysg yn cynnwys 'fframwaith dyfarniadau' sy'n fanwl ac yn gyson â'r FHEQ a FfCChC. Mae'r Rheoliadau Graddau Ymchwil hefyd yn cynnwys disgrifwyr cymhwyster ar gyfer pob gradd ymchwil a gynigir gan y Brifysgol. Mae prosesau o ddilysu, monitro'n barhaus, ac adolygu ac ail-ddilysu cyrsiau'n sicrhau bod y cyrsiau wedi eu halinio gyda disgwyliadau'r FHEQ a FfCChC a bod y cyrsiau'n cadw at reoliadau perthnasol y Brifysgol.

57 Mae aelodau'r staff sy'n newydd i addysgu'n cael eu cefnogi i ddefnyddio fframweithiau cymwysterau cenedlaethol wrth gynllunio, darparu ac asesu rhaglenni drwy'r cwrs Newydd i Addysgu mewn Addysg Uwch a rhaglen Tystysgrif Uwchraddedig Dysgu ac Addysgu mewn Addysg Uwch. Mae'r ail raglen wedi ei modelu ar Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU ac yn galluogi i'r staff wneud cais am statws Cymrawd Cyswllt (ar ddiwedd y modiwl cyntaf) a statws Cymrawd llawn ar ôl cwblhau pob un o'r tri modiwl.

58 Mae'r Brifysgol wedi ymgysylltu'n llawn â fersiwn ddiwygiedig 2018 o God Ansawdd Addysg Uwch y DU trwy i'r staff academiaidd a staff y gwasanaethau proffesiynol fod yn rhan o grwpiau darllen ac ysgrifennu QAA ar wahanol agweddau o'r Cod Ansawdd, a thrwy wneud adolygiad trwyadl o bolisiau a gweithdrefnau'r Brifysgol yn erbyn Arferion Craidd ac Arferion Cyffredin newydd y Cod a'r themâu yng Nghyngor ac Arweiniad y Cod. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, lluniwyd cynllun gweithredu manwl iawn sydd â sgorau goleuadau traffig (coch/melyn/gwyrdd). Am fod y materion allweddol yn y cynllun gweithredu wedi derbyn sylw, bydd adolygiad arall yn cymryd lle hwn, sef adolygiad pen desg yn erbyn y themâu yn y Cod Ansawdd a wneir ar gylch treigl o bedair blynedd er mwyn sicrhau bod yr aliniad yn parhau. Mae Llawlyfr Ansawdd y Brifysgol hefyd yn darparu tystiolaeth o'r ffordd y mae'r Brifysgol yn ymgysylltu ag agweddau eraill o'r pwyntiau cyfeirio allanol, gan gynnwys y Datganiad o Nodweddion ar gyfer Prentisiaethau Gradd a'r Datganiadau Meincnodi Pwnc.

59 Mae gan y Brifysgol broses fanwl ar waith sy'n cael ei goruchwyllo gan y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd, ac mae wedi defnyddio'r broses hon i fapio ei fframwaith ansawdd a safonau

a'r polisïau a gweithdrefnau cysylltiedig yn erbyn Rhan 1 yr ESG. Mae'r Brifysgol yn bwriadu adolygu'r broses fapio hon yn flynyddol, gydag adroddiad i'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd.

60 Mae Strategaeth y Gymraeg y Brifysgol, dan y teitl 'Gweledigaeth PDC 2030 ar gyfer y Gymraeg', yn esbonio ei hagwedd tuag at ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg. Mae'r strategaeth yn cael ei chefnogi drwy weithgareddau mewn nifer o feysydd: cwricwla a ddatblygir gan gysylltu â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol drwy Swyddog Cangen sy'n gweithio'n agos â'r staff academiaidd; modiwlau o 40 credyd o leiaf a addysgir ac a asesir drwy gyfrwng y Gymraeg o fewn deg cwrs i israddedigion, a'r ehangiad yn nifer y cyrsiau hyn; cwrs newydd a gaiff ei ddarparu'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg o 2023 ymlaen; a'r cyfleoedd sydd ar gael i'r staff ddatblygu eu harbenigedd mewn darparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Rheoliadau Cyrsiau a Addysgir y Brifysgol hefyd yn caniatáu i'r myfyrwyr sy'n astudio drwy gyfrwng y Saesneg gyflwyno eu hasesiadau yn y Gymraeg (yn amodol ar eithriadau penodol).

61 Mae gan y Brifysgol amrediad eang o gyrsiau a achredir gan gyrff PSRB, ac mae cofrestr y Brifysgol yn cadw cofnod o bob achrediad. Mae'r Brifysgol wedi datblygu gwefan SharePoint lle mae modd cofnodi a lanlwytho unrhyw fanylion yn ymwneud â phob achrediad (gan gynnwys copiâu o ddogfennau). Ar lefel y Brifysgol, mae'r Gofrestrfa Academiaidd yn gyfrifol am gadw'r gofrestr. Mae'r Is-bwyllgor Ansawdd Partneriaethau'n derbyn adroddiad ymhob un o'i gyfarfodydd, ac mae'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd yn derbyn adroddiad blynyddol.

62 Mae'r dystiolaeth a archwiliwyd gan y tîm adolygu'n dangos yn glir bod y Brifysgol yn ymgysylltu â'r ystod lawn o bwyntiau cyfeirio allanol mewn ffordd drwyadl ac ystyriol iawn a bod hyn yn sicrhau y gall ddatblygu a chynnal ei Fframwaith Ansawdd yn effeithiol er mwyn bodloni disgwyliadau'r DU ac Ewrop mewn perthynas â safonau academiaidd ar draws ei darpariaeth gyfan. Hefyd, rhoddodd y tîm adolygu ystyriaeth i'r sawl tro y mae'r Brifysgol wedi ymgysylltu ag arweiniad ac arbenigedd allanol, nid yn unig er mwyn cydymffurfio, ond hefyd i wella ei threfniadau sicrhau safonau academiaidd cyn belled ag y bo'n bosibl. Ystyriodd hefyd ei pharodrwydd i ymgysylltu â rhwydweithiau perthnasol er mwyn dysgu gan, a rhannu gyda, darparwyr addysg uwch eraill. Dyma rai o'r esiamplau a nodwyd: cymryd rhan yng ngrwpiau darllen ac ysgrifennu QAA am fersiwn ddiwygiedig Cod Ansawdd Addysg Uwch y DU; rhannu'r dull o sicrhau aliniad â'r Cod Ansawdd a'r broses fonitro barhaus gyda Rhwydwaith Ansawdd Cymru; gwneud cais (llwyddiannus) i gynllun Prosiectau Gwella Cydweithredol QAA (mewn cydweithrediad â thri choleg partner); a chymryd rhan yng ngweithgorau'r Gronfa Buddsoddi ac Adfer Addysg Uwch ar Hyfforddiant Ymchwil Ôl-raddedig, Hyfforddiant i Oruchwylywyr, a Lles. Mae'r tîm adolygu'n **canmol** y ffordd y mae'r Brifysgol wedi ymgysylltu'n eang ag arweiniad, arbenigedd a rhwydweithiau allanol, sydd wedi helpu'n gadarnhaol i hysbysu ei gwaith o reoli safonau academiaidd a gwella profiad y myfyrwyr.

2.4 Sylwadau ar y camau a gymerwyd ers yr adolygiad blaenorol a phennu materion sy'n codi o'r Pecyn Gwybodaeth Ymlaen Llaw nad ydynt yn cael eu harchwilio fel arall

63 Cafodd y Brifysgol ei hadolygu ddiwethaf gan QAA yn 2015, ar adeg pan oedd y Brifysgol newydd gael ei chreu drwy broses gyfuno. Canfu'r adolygiad ddau faes o arfer da a gwnaeth naw argymhelliad. Darparodd y Brifysgol dabl i'r tîm adolygu sy'n nodi sut yr oedd wedi mynd i'r afael â phob un o'r argymhellion a gafwyd yn yr adolygiad yn 2015 yn rhan o'i Dadansoddiad Hunanwerthuso a darparodd dystiolaeth briodol i gefnogi hyn.

64 Nododd y tîm adolygu bod y Brifysgol wedi mapio ei chyfeiriad drwy ei Strategaeth 2030 a bod staff wedi neilltuo, ac yn parhau i neilltuo, amser ac ymdrech sylweddol i alinio pob agwedd o'r gwaith o reoli a datblygu darpariaeth y Brifysgol â'r strategaeth honno er mwyn sicrhau bod modd ei gweithredu. Canlyniad hyn yw datblygiad polisïau megis Egwyddorion Cwricwlwm 2030, Strategaeth y Gymraeg, y Polisi Asesu ar gyfer Dysgu, a'r egwyddorion a'r

fframwaith gweithredu 'Galluogi Dysgu Gweithredol'. Mae hyn wedi galluogi i faterion megis cysondeb ac effeithiolrwydd yr asesu dderbyn mwy o sylw a chael eu datblygu'n llawn yng nghyd-destun profiad y Brifysgol o ymateb i'r pandemig a'r newidiadau mewn dull a darpariaeth a gafwyd o ganlyniad i hynny. Mae newidiadau arwyddocaol yn amlwg hefyd yng nghyflwyniad a datblygiad parhaus y dull o sicrhau ansawdd sy'n ystyried risgiau a luniwyd i yrru prosesau o ddilysu, monitro'n barhaus, ac adolygu ac ail-ddilysu cyrsiau.

65 Nododd y tîm adolygu hefyd bod gweithgarwch sylweddol wedi digwydd, ac yn parhau, mewn perthynas â'r ddarpariaeth graddau ymchwil ôl-raddedig. Wrth ystyried y dogfennau hyn a thystiolaeth ategol arall, ac yn ei gyfarfodydd gyda'r staff a'r myfyrwyr, archwiliodd y tîm adolygu'r camau y mae'r Brifysgol yn eu cymryd mewn perthynas â hyfforddiant i oruchwylwyr, a chlywodd adborth cadarnhaol am rôl yr Ysgol Graddedigion a'r system gwybodaeth 'PhD Manager', yn ogystal â mentrau i gefnogi lles y myfyrwyr.

66 Mae'r Brifysgol yn canolbwyntio ei dull o hyfforddi goruchwylwyr ymhellach drwy ddefnyddio cyfuniad o'i gweithdai hyfforddi mewnol a modiwlau hyfforddi ar-lein 'Supervising Doctoral Studies' y darparwr hyfforddiant Epigeum. Hefyd, cychwynnwyd y gwaith o ail ysgrifennu'r Cod Ymarfer i Oruchwylwyr a mapio'r cod a'r hyfforddiant i oruchwylwyr yn erbyn Fframwaith Arfer Goruchwyllo Da UKCGE (Cyngor Addysg Ôl-raddedig y DU). Mae'r ddogfen fapio yn erbyn yr ESG hefyd yn nodi y bydd goruchwylwyr yn cael eu hannog i wneud cais i Gynllun Cydnabod Goruchwylwyr UKCGE.

67 Hefyd, archwiliodd y tîm adolygu chwyddiant mewn graddau o fewn y Brifysgol. Mae'r Bwrdd Academaidd yn rhoi adroddiad sicrwydd blynyddol i'r Bwrdd Llywodraethwyr. Gwnaeth y Brifysgol adolygiad o'i phroffil sefydliadol o ddsbarthiadau graddau yn 2020 ac, ers hynny, cafodd Datganiadau o Safonau Graddau eu cyhoeddi ym misoedd Gorffennaf 2020 a Gorffennaf 2021. Wrth fynd i'r afael â'r rhain, mae'r Brifysgol wedi archwilio'r data oedd yn dangos bod proffil y Brifysgol o raddau anrhydedd 'da' (sef dosbarth cyntaf ac ail ddsbarth uwch) wedi dangos twf dros y cyfnod hwn ond nid i'r yn lefelau ag sydd i'w gweld yn y DU gyfan a'r sector yng Nghymru, nac ar yr un lefelau â'r Gynghrair Prifysgolion (sef grŵp cenhadaeth y Brifysgol). Mae'r data'n dangos bod y nifer o raddau anrhydedd 'da' a ddyfarnwyd yn y Brifysgol wedi cynyddu o 66.4% yn 2015-16 i 76% yn 2019-20, o'i gymharu â 73.2% a 82.1% ar gyfer sector addysg uwch cyfan y DU.

68 Nododd y Brifysgol bedwar rheswm am y twf y mae wedi ei weld mewn dyfamiadau gradd anrhydedd 'da': ei pholisïau newydd yn ymwneud ag asesu a chanlyniadau, a ddatblygwyd yn dilyn y cyfuniad a greodd y Brifysgol; gwelliannau mewn meysydd astudio gwannach; gwelliannau gan fyfyrwyr sydd â chymwysterau mynediad heblaw Lefelau A/AS; a'r dulliau 'dim anfantais' a gyflwynwyd mewn ymateb i'r pandemig oedd yn berthnasol i flwyddyn 2020.

69 Gwelodd y tîm adolygu dystiolaeth i ddangos bod y Brifysgol yn cadw goruchwyliaeth ofalus ac effeithiol dros ganlyniadau ei phrosesau asesu a phob agwedd o'r prosesau hynny, gyda phwyslais arbennig ar ymdrin ag effaith y pandemig a'r heriau a grëir gan gamymddwyn academaidd. Gall y Brifysgol ddangos ei bod yn deall y data a'r rhesymau sylfaenol o dan y data hwn. Yn yr un modd, mae'n canolbwyntio'n llawn ar barhau i ddatblygu ei dulliau o ddysgu, addysgu ac asesu er mwyn gwella'r canlyniadau i'r myfyrwyr a gwelir dystiolaeth o hyn mewn polisiau megis y Polisi Asesu ar gyfer Dysgu a DEAL/EAL.

2.5 Y dull o ddefnyddio data i hysbysu prosesau gwneud penderfyniadau a gwerthuso

70 Mae'r Brifysgol yn nodi bod data'n bwysig i gyflawni amcanion ei chynllun strategol cyfredol, ac mae hyn yn amlwg yn yr amrywiaeth eang o ffynonellau data a ddefnyddir i gefnogi prosesau ansawdd drwy'r Brifysgol gyfan. Gellir mesur pump o'i saith 'ffactor llwyddiant allweddol' drwy ddefnyddio data.

71 Ystyrir y data hwn yn bennaf yn rhan o'r prosesau monitro parhaus ar lefel y cyrsiau a'r cyfadrannau, gyda chyhoeddiad ffynonellau data pwysig, megis arolygon myfyrwyr neu ddata ar lefel genedlaethol, wedi eu hymgorffori yn y broses hunanwerthuso sy'n arwain at gynhyrchu cynlluniau gweithredu parhaus ar lefelau'r cyrsiau a'r cyfadrannau. Defnyddir data hefyd i hysbysu digwyddiadau ail-ddilysu, neu benderfyniadau yn ymwneud ag addasrwydd cwrs i gael dilysiad parhaus.

72 Mae arweinydd y cwrs yn gwneud asesiad risg cychwynnol drwy arolygu data perthnasol ac yna mae Pennaeth yr Ysgol yn trafod hwn ac yn ei gadarnhau. Mae hyn yn golygu bod modd gwneud asesiad gwybodus cyffredinol o'r risg i berfformiad y cwrs yn y dyfodol, ac mae'n tynnu sylw at y meysydd a fydd efallai angen eu goruchwylio ymhellach.

73 Gwelir defnydd o ddata ar lefel y sefydliad hefyd. Mae'r Bwrdd Llywodraethwyr yn derbyn adroddiad blynyddol am ddatblygiad y Brifysgol yn erbyn metrigau pwysig, ac mae'r Bwrdd Academaidd yn derbyn papurau blynyddol sy'n ymwneud â recriwtio, cofrestru a chadw myfyrwyr a'r graddau a gyflawnir ganddynt. Yn ogystal, ystyrir data drwy Gynllun Mynediad a Ffioedd y Brifysgol, sydd hefyd yn cael ei adrodd i'r Bwrdd Llywodraethwyr.

74 Sicrheir bod staff yn gallu cyrchu data drwy ystod o systemau meddalwedd a ddefnyddir ar draws y Brifysgol ac a gydlynir drwy'r Tîm Cynllunio a Pherfformiad canolog sydd hefyd yn gyfrifol am sicrhau bod y staff yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r systemau hyn. Mae'r systemau meddalwedd a ddefnyddir yn cynnwys pecyn delweddu data (Power BI) sy'n cynnwys data am nifer o ffactorau llwyddiant allweddol y Brifysgol, a data meincnodi am bob un o'r sefydliadau a'r cyfadrannau. Defnyddir y gwasanaeth hwn hefyd i gofnodi gwybodaeth megis ymgysylltiad y myfyrwyr â gwasanaethau cymorth y Brifysgol.

75 Mae'r Brifysgol hefyd yn defnyddio system 'Learner Analytics' y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth (Jisc) sy'n galluogi i hyfforddwyr academaidd personol, arweinwyr cwrs a staff uwch fonitro cynnydd y myfyrwyr. Yn ddiweddar, mae'r Brifysgol hefyd wedi treialu system o'r enw STEAM (Student Engagement Active Monitoring / Monitro Ymgysylltiad Myfyrwyr yn Weithredol) sy'n cyfuno â'r system Learning Analytics i ddarparu data megis y 'dyddiad ymgysylltu diwethaf' â phob myfyriwr. Anfonir hysbysiadau rhagweithiol at arweinwyr cwrs sydd wedyn yn gallu dangos os nad yw myfyriwr wedi ymgysylltu'n ddiweddar, gan alluogi ymyrraeth gynnar. Mae'r staff sy'n cymryd rhan yn y peilot wedi gweld hyn yn ddefnyddiol iawn.

76 Caiff y myfyrwyr ymchwil eu monitro'n bennaf drwy'r system 'PGR Manager' a gyflwynwyd yn 2018. Mae hon yn caniatáu i ddyddiadau adolygiad y myfyrwyr gael eu monitro, ynghyd ag unrhyw dasgau sydd heb gael eu gwneud gan y myfyrwyr a'u goruchwylwyr. Yna, ystyrir y data hwn yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Ymchwil y Cyfadrannau i sicrhau bod cynnydd y myfyrwyr ymchwil yn cael ei oruchwylio.

2.6 Effeithiolrwydd y defnydd a wneir o'r dulliau sicrhau ansawdd i wella a chyfoethogi'r dysgu a'r addysgu

77 Ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd iddo, ac o'r hyn a glywodd gan y staff yn ystod yr ymweliad adolygu, canfu'r tîm adolygu fod y dull sy'n ystyried risgiau y mae'r Brifysgol yn ei ddefnyddio i sicrhau ansawdd yn galluogi i'r cyrsiau, yr ysgolion/adranau, a'r cyfadrannau ganfod problemau posibl a llunio atebion iddynt o fewn yr un flwyddyn, yn hytrach na dim ond gwneud newidiadau i garfan y flwyddyn ddilynol. Er enghraifft, cyrsiau a newidiodd y ffordd yr oedd yr addysgu'n cael ei ddarparu mewn ymateb i'r pandemig i fod yn fwy addas i'r myfyrwyr ar sail eu hadborth. Mae buddion hefyd i'r cyrsiau hynny nad ydynt yn gweithredu ar sail cylch blwyddyn academaidd traddodiadol. Mae'r camau gweithredu a bennwyd yn rhan o'r broses fonitro barhaus yn dod o ffynonellau megis y system arolwg myfyrwyr 'LOOP', Pwyllgorau Cyswllt Staff-Myfyrwyr, adroddiadau arholwyr allanol, neu bartneriaid allanol. Mae hyn yn dangos mor

effeithiol ydynt o ran cyfuno mecanweithiau adborth ar wahân mewn un broses sicrhau a gwella ansawdd ganolog er mwyn gwella'r dysgu a'r addysgu.

78 Mae pwyllgorau lefel uwch megis y Pwyllgor Gwella Dysgu ac Addysgu a'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd yn cadw goruchwyliaeth drwyadl ar y systemau ansawdd hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio fel y bwriadwyd. Cedwir deialog rhwng y ddau bwyllgor hyn hefyd drwy'r aelodau o staff sy'n eistedd ar bob un o'r ddau bwyllgor. Mae hyn yn sicrhau bod materion yn cael eu rheoli'n briodol rhwng y ddau bwyllgor. Yna, mae'r lefel uwch o oruchwyliaeth dros effeithiolrwydd y systemau ansawdd yn caniatáu gwelliannau i weithrediad y systemau eu hunain. Er enghraifft, mae gwaith parhaus yn digwydd i werthuso ymgysylltiad y Grŵp Cyswllt Myfyrwyr-Staff Cwrs yn rhan o'r broses archwilio sefydliadol.

79 Yn ogystal â mecanweithiau ffurfiol i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu, clywodd y tîm adolygu hefyd am y ffordd y mae'r berthynas rhwng y myfyrwyr a'r staff yn galluogi cyfnwedd adborth a thrafod yn barhaus am brofiad dysgu'r myfyrwyr. Roedd y myfyrwyr y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n hyderus y byddai'r materion a godir ganddynt gyda'r staff addysgu'n cael eu cymryd o ddifrif, a siaradodd y myfyrwyr ymchwil yn gadarnhaol am waith yr Ysgol Graddedigion yn eu cefnogi nhw a'u buddiannau. Yn ogystal â'u tîm cwrs, mae ystod eang o gymorth ar gael i'r myfyrwyr i'w helpu i lwyddo'n academiaidd. Mae'r System Hyfforddi Academiaidd Personol ar gael i roi arweiniad proffesiynol a chyfeirio at gymorth bugeiliol. Ffynhonnell arall o gymorth yw'r Parth Cyngor, y soniwyd yn gadarnhaol amdano yn ystod yr ymweliad adolygu, a hynny hefyd gan y rheiny yn y colegau partner. Cafodd ei ddisgrifio fel pwynt un mynediad effeithiol ar gyfer ymdrin ag amrywiaeth o anghenion a phryderon.

2.7 Effeithiolrwydd y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academiaidd

80 Mae Fframwaith Ansawdd y Brifysgol yn cynnwys disgrifiadau clir o'i rheoliadau, ei pholisïau a'i gweithdrefnau ar gyfer sicrhau safonau academiaidd ei dyfarniadau, ac mae'r Bwrdd Academiaidd, y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a Phwyllgorau Sicrhau Ansawdd y Cyfadranau'n monitro gweithrediad y Fframwaith yn drwyadl ac yn systematig. Mae'r Pwyllgor Sicrhau Ansawdd a'r Bwrdd Academiaidd yn derbyn adroddiadau blynyddol manwl sy'n galluogi i'r Bwrdd Llywodraethwyr roi'r Datganiad Sicrwydd Ansawdd blynyddol i'r Cyngor Cyllido. Mae'r Fframwaith Ansawdd a'i brosesau goruchwyllo effeithiol yr un mor berthnasol i ddarpariaeth gydweithredol y Brifysgol a ddarperir gan ei phartneriaid yn y DU, dramor ac ar-lein, ag ydyw i ddarpariaeth a darperir gan Goleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru, y cafwyd adolygiad allanol annibynnol cadarnhaol amdano gan MusiQue (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2021).

81 Mae'r cyfarfodydd gyda'r staff, a'r dystiolaeth a ddarparwyd i gefnogi'r Dadansoddiad Hunanwerthuso, yn darparu darlun clir o sefydliad sydd wedi ei ymrwymo i barhau i ddatblygu pob agwedd o'i waith yn ymwneud â gosod a chynnal safonau academiaidd, yn fwyaf nodedig drwy adolygu'n systematig ba effaith a gaiff ei bolisïau a'i weithdrefnau a thrwy ddatblygu polisïau newydd a mireinio'r polisïau presennol. Dyma rai o weithredoedd y Brifysgol sy'n nodweddiadol o'i gwaith yn y maes yma: datblygiad Strategaeth PDC 2030 a'r polisïau cysylltiedig, a'r ffordd y mae'r Brifysgol wedi ymateb i'r pandemig, sy'n cynnwys datblygu'r dulliau 'dim anfantais' a DEAL yn ofalus ac yn gydweithredol, gwerthusiad y polisïau hyn, a'r hyn a ddysgwyd ohonynt i ddatblygu ymhellach.

2.8 Effeithiolrwydd dull y darparwr o'i werthuso ei hun, sy'n cynnwys defnyddio data'n effeithiol i hysbysu'r prosesau gwneud penderfyniadau

82 Mae'r Brifysgol yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i'w gwerthuso ei hun, ac mae llawer o'r rhain yn gweithredu o amgylch y dull o sicrhau ansawdd sy'n ystyried risgiau y mae'r Brifysgol wedi ei bennu fel fframwaith ar gyfer gweithredu ei phrosesau ansawdd. Yn rhan o'r prosesau ansawdd sy'n ystyried risgiau, asesir sgorau risg yn rheolaidd ac mae hyn yn cynnwys cyfranogaeth gan staff addysgu nad ydynt efallai wedi cymryd rhan o'r blaen ym manylion y monitro blynyddol.

Nododd y tîm adolygu fod nifer o gofnodion y Gweithgor Gwella Monitro Parhaus yn cyfeirio at y ffaith bod rhai aelodau o'r staff yn gweld weithiau bod gan wahanol systemau data amseroedd diweddar gwahanol sy'n gallu golygu bod gwneud penderfyniadau cyson yn rhan o'r broses fonitro barhaus yn anodd.

83 Hefyd, gwneir cyfres o Archwiliadau Ansawdd Sefydliadol bob blwyddyn mewn perthynas â meysydd gwaith penodol i sicrhau bod cyfrifoldebau dirprwyedig yn cael eu cyflawni'n briodol. Arweinir y meysydd ffocws ar gyfer yr archwiliadau hyn gan y Pennaeth Ansawdd a Gwasanaethau Academaidd ar sail pynciau sy'n codi o gyfarfodydd y Pwyllgor Sicrhau Ansawdd. Er enghraifft, canolbwyntiodd archwiliadau ym mlwyddyn academaidd 2021-22 ar ansawdd a chysondeb llawlyfrau'r cyrsiau, ac argaeledd adroddiadau arholwyr allanol i'r myfyrwyr.

84 Mae'r Brifysgol hefyd yn defnyddio systemau meddalwedd megis Learner Analytics, PhD Manager a'r plattform arolwg myfyrwyr LOOP i wella profiad y myfyrwyr ac i adnabod myfyrwyr sydd mewn perygl yn gynharach. Mae'r holl atebion hyn yn golygu bod data ar gael i staff ei ddefnyddio ar gyfer gwneud penderfyniadau, a gall y staff i gyd fynd i mewn i ddangosfyrddau'r system Power BI sy'n caniatáu iddynt weld data trosolwg pwysig.

85 Ar y cyfan, un o nodweddion craidd arferion gweithio'r Brifysgol yw'r ffocws ar ddefnyddio data i wella ansawdd a chynnwys aelodau staff ar bob lefel yn y Brifysgol, yn ogystal â'i myfyrwyr, yn ei gwaith o'i gwerthuso ei hun. Mae'r Brifysgol wedi gwneud buddsoddiad sylweddol mewn systemau rheoli data, megis PhD Manager, LOOP a Power BI, ac mae'n ceisio gwella'r defnydd a wneir o ddata yn ei systemau rheoli myfyrwyr drwy'r amser. Siaradodd staff y Brifysgol a'i phartneriaid y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw'n gadarnhaol ynglŷn â gwerth cynnwys data ym mhrosesau ansawdd y Brifysgol, ac roeddent yn teimlo eu bod yn derbyn cefnogaeth dda i'w ddefnyddio at y diben hwnnw. Felly, mae'r tîm adolygu'n **canmol** argaeledd data cynhwysfawr, a'r defnydd cynhwysfawr a wneir o ddata yn rhan o'r prosesau ansawdd, sy'n hwyluso gwneud penderfyniadau deallus yn brydlon er mwyn gwella profiad y myfyrwyr.

3 Darpariaeth gydweithredol

3.1 Nodweddion allweddol dull strategol y darparwr (yn cynnwys gweithgareddau cydweithredol, dysgu ar-lein a dysgu o bell a ddarperir gydag eraill, a dysgu seiliedig ar waith)

86 Ar adeg yr adolygiad hwn, roedd y Brifysgol wrthi'n newid ffocws ei hagwedd tuag at bartneriaethau cydweithredol a phartneriaethau rhyngwladol er mwyn sicrhau aliniad agosach â Strategaeth PDC 2030 drosfwaol. Yn 2021, adolygwyd y Strategaeth Ymgysylltu a Recriwtio'n Rhyngwladol ar gyfer 2018-2023 i roi ystyriaeth i'r blaenoriaethau ariannol cyfredol a'r rhai oedd yn ymwneud â chofrestriadau. Roedd wedi datblygu Strategaeth Ryngwladoli PDC 2030 newydd ac roedd yn mynd i lansio hon yn ystod blwyddyn academaidd 2022-23. Ei nod oedd blaenoriaethu pedwar amcan allweddol: recriwtio nifer fwy o fyfyrwyr drwy bartneriaethau rhyngwladol; sefydlu partneriaethau i hwyluso gwaith ymchwil cydweithredol; cynyddu'r gyfran o'r myfyrwyr oedd yn cymryd rhan mewn rhaglenni symudedd i mewn a thuag allan; a chynllunio cwricwlwm academaidd oedd yn fwy rhyngwladol.

87 Yn ei gyfarfodydd â'r uwch reolwyr, dywedwyd wrth y tîm adolygu bod y Brifysgol yn dewis partneriaid ar sail cydbwysedd rhwng gwerthoedd cymdeithasol, masnachol a strategol. Yn y cyd-destun hwn, mae wedi penderfynu'n ddiweddar i ymadael â dwy bartneriaeth ryngwladol: datblygiad campws yn Dubai, a threfniant etholfreinio hirsefydlog gyda darparwr ar-lein mawr yng Nghyprus. Yn y ddau achos, mae'r penderfyniadau wedi eu seilio'n gyfan gwbl ar resymau ariannol yn hytrach na materion ansawdd: ni ystyriwyd bod yr adenillion yn gymesur â'r cymhlethdod a'r costau gweinyddol. Yn lle hynny, dywedodd y Brifysgol ei bod yn disgwyl y bydd ganddi lai o bartneriaethau, ond y byddent yn fwy strategol, ac y bydd yn canolbwyntio ar y rheiny yn ei rhanbarth lleol, megis ei chynghreiriau gyda cholegau addysg bellach a byrddau iechyd lleol, ac ar ddatblygu Prentisiaethau Gradd yn yr ardal leol.

88 Mae dysgu seiliedig ar waith mewn lleoliadau gwaith ar safleoedd cyflogwyr yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat yn rhan arwyddocaol o brofiad y myfyrwyr yn y Brifysgol. Mae cyfran fawr o'r cyrsiau y mae'r Brifysgol yn eu cynnig yn canolbwyntio ar ymarfer ac yn cynnwys partneriaethau gyda darparwyr iechyd, y sectorau cyfiawnder, cyfiawnder troseddol a diogelwch neu gyflogwyr yn y diwydiannau gwyddonol, technegol a chreadigol. Ar unrhyw un adeg, mae nifer sylweddol o'r myfyrwyr yn cymryd rhan mewn rhyw fath o weithgaredd dysgu seiliedig ar waith. Ym mlwyddyn academaidd 2021-22, roedd 167 o'r modiwlau y mae'r Brifysgol yn eu cynnig yn cynnwys rhywfaint o ddysgu seiliedig ar waith a wnaed gan 2,806 o fyfyrwyr.

89 Ers cyflwyno Strategaeth PDC 2014-2020, mae'n ofynnol bod pob cwrs gradd baglor anrhydedd sengl yn cynnwys un o ddau ddull o sicrhau cyflogadwyedd: modiwl cyflogadwyedd o 20 credyd sy'n galluogi i'r myfyrwyr gael 70 o oriau o brofiad gwaith perthnasol; neu ddull wedi ei ymwreiddio'n llawn lle mae pob modiwl gofynnol yn cynnwys nifer o ganlyniadau dysgu sy'n berthnasol i gyflogadwyedd (fel arfer, pan mae'r cwrs yn cynnwys gofyniad corff PSRB am ymarfer). Yn 2022, cryfhawyd yr ymrwymiad strategol hwn i wneud yn siŵr bod gan bob myfyriwr sgiliau cyflogadwyedd erbyn iddynt adael y Brifysgol drwy fabwysiadu Polisi Lleoliadau Gwaith sy'n darparu llwybrau dysgu seiliedig ar waith ychwanegol. Trefnir lleoliadau gwaith naill ai gan Dimau Cwrs y Cyfadranau, gyda chymorth ac arweiniad Gwasanaeth Gyrfaoedd a Chyflogadwyedd y Brifysgol, neu mae'r myfyrwyr yn canfod eu lleoliadau gwaith eu hunain yn uniongyrchol, ar yr amod bod y profiad dysgu seiliedig ar waith yn cyfateb â chanlyniadau dysgu eu rhaglenni astudio ac yn hwyluso datblygiad eu priodoleddau graddedigion (fel y maent wedi eu diffinio gan y Brifysgol).

3.2 Gwybodaeth am faint a natur y ddarpariaeth gydweithredol ac unrhyw gynlluniau i'w newid

90 Mae gan y Brifysgol amrywiaeth o drefniadau cydweithredol gyda mwy na 40 o sefydliadau yn y DU a thramor sydd wedi eu rhestru yn y Gofrestr o Bartneriaethau. Mae ei sefydliadau partner yn addysgu cyfran sylweddol o gyfanswm y myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ar gyrsiau sy'n arwain at ddyfarniadau a ddyfernir gan y Brifysgol. Ym mlwyddyn academiaidd 2021-22, roedd oddeutu 30% o'r myfyrwyr cofrestredig wedi cael eu haddysgu oddi ar y campws mewn sefydliadau partner yng Nghymru, Lloegr neu wledydd eraill y tu allan i'r DU. Am fod nifer fawr o'r myfyrwyr hyn yn astudio'n rhan amser, mae eu nifer yn cynrychioli cyfran is o nifer ei myfyrwyr cofrestredig o'u cyfrif ar sail gyfwerth ag amser llawn: sef oddeutu 20%. Mae oddeutu 70% o'r myfyrwyr a addysgir gan bartneriaid y tu allan i'r DU yn astudio ar gyrsiau ar-lein.

91 Ymhob achos bron, mae'r partneriaid yn darparu cyrsiau a addysgir a luniwyd gan y Brifysgol ar lefelau 4 i 7 yn y FHEQ o dan drefniadau etholfreinio llawn. Mewn perthynas â nifer fechan o ddyfarniadau mwy arbenigol mewn arfer proffesiynol, megis Nyrsio, Plismona a Hyfforddi Chwaraeon, datblygwyd y cyrsiau o dan drefniadau etholfreinio ar y cyd â'r partner sy'n darparu'r cwrs penodol. Mewn dim ond un achos, mae'r Brifysgol yn dilysu cyrsiau a gynllunnir yn gyfan gwbl gan y partner: cyrsiau gradd meist'r a diploma arbenigol mewn Meddygaeth Glinigol a Rheoli Gofal Iechyd. Mae'r ddarpariaeth a ddilysir hon yn cyfrif am lai na 3% o gyfanswm myfyrwyr y Brifysgol ac yn cael ei darparu gan bartner sy'n arbenigo mewn darparu cyrsiau Ymarfer Gofal Iechyd ar-lein, y mae'r Brifysgol wedi cydweithio â hi ers 2013.

92 Rhan sylweddol o ddarpariaeth gydweithredol y Brifysgol, sy'n hafal i fwy na 40% o'r myfyrwyr yn ei phartneriaethau, yw'r cyrsiau israddedig a chyrsiau gradd meist'r y mae'r Brifysgol wedi eu hetholfreinio i golegau addysg bellach yn Ne Cymru ac, i raddau llai, yn Lloegr. Ym mis Mehefin 2022, ail-lofnododd y Brifysgol ei chynghrair strategol gyda phum coleg addysg bellach partner yn y rhanbarth (Coleg Penybont, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Gwent, Y Coleg Merthyr Tudful a Choleg y Cymoedd). Sefydlwyd y gynghrair yn 2013 pan grëwyd y Brifysgol, ac mae'n ganolog i'w hymrwymiad strategol i greu ac ehangu cyfleodd i ddysgu a chael swydd a hybu cynhwysiant cymdeithasol yn Ne-ddwyrain Cymru.

93 Ers 2017, mae'r Brifysgol, mewn partneriaeth â chyflogwyr a cholegau addysg bellach yn yr ardal leol, wedi datblygu ystod o Brentisiaethau Gradd i fyfyrwyr sy'n gweithio yn y sectorau peirianeg fecanyddol a thrydanol a'r diwydiant lled-ddargludyddion sy'n tyfu yn Ne Cymru, yn ogystal â phrentisiaethau proffesiynol i heddluoedd cenedlaethol a ddatblygwyd mewn partneriaeth â'r Coleg Plismona. Erbyn hyn, mae myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer graddau prentisiaeth yn cyfrif am oddeutu 13% o'r holl fyfyrwyr sy'n astudio ar gyrsiau a ddarperir yn rhan o drefniadau cydweithredol. Mae'r Brifysgol wedi llunio Strategaeth Prentisiaethau Gradd sy'n nodi ei hymrwymiad i ddarparu cyfleodd Prentisiaeth Gradd hygyrch mewn partneriaeth â chyflogwyr, gyda chefnogaeth ei rhwydweithiau o ysgolion a cholegau a'i chynghrair strategol. Mae'r strategaeth yn disgrifio'r strwythurau llywodraethu i gefnogi Prentisiaethau Gradd sydd yn eu lle ar safleoedd y sefydliad a'r darparwyr. Sefydlwyd Grŵp Prentisiaethau Gradd yn y Brifysgol, ac mae gan bob cyfadran arweinydd enwebedig ar gyfer y ddarpariaeth Prentisiaeth Gradd.

3.3 Effeithiolrwydd y dull o reoli'r ddarpariaeth gydweithredol gan gynnwys y trefniadau ar gyfer sicrhau safonau academiaidd a gwella a chyfoethogi profiad dysgu'r myfyrwyr

94 Mae gan y Brifysgol bolisiau a threfnau gweinyddu sydd wedi eu sefydlu'n dda ar gyfer rheoli ei ddarpariaeth gydweithredol sy'n berthnasol i bob partner mewn ffordd debyg iawn i'w gilydd, p'un a ydynt yng Nghymru, y DU neu unrhyw wlad arall yn y byd. Mae Llawlyfr Partneriaethau sy'n cael ei ddiweddar'u flynyddol yn cynnwys gwybodaeth fanwl am bob proses weinyddol, gan gynnwys prosesau o gymeradwyo, adolygu ac ail-gymeradwyo'r partneriaethau a'r cyrsiau

a ddarperir ganddynt, prosesau o sicrhau ansawdd y dysgu, yr addysgu a'r asesu'n barhaus, ac hefyd y mecanweithiau i gau partneriaethau os daw hyn yn angenrheidiol. Mae'r gweithdrefnau hyn ar gyfer partneriaid yn efelychu'r rheiny sy'n berthnasol i'r cyrsiau a ddarperir ar campws y Brifysgol, ac maent wedi eu halinio â'r fersiwn ddiwygiedig o God Ansawdd Addysg Uwch y DU, a Chyngor ac Arweiniad y Cod am bartneriaethau. Mae'r prosesau ansawdd safonol sydd wedi eu rhagnodi yn y Llawlyfr Ansawdd (er enghraifft, prosesau o fonitro'n barhaus a chymeradwyo ac adolygu cyrsiau, a'r defnydd a wneir o arholwyr allanol) yr un mor berthnasol i ddarpariaeth gydweithredol. Archwiliodd y tîm adolygu sampl sylweddol ei maint o ddogfennau sy'n cofnodi prosesau o gymeradwyo, ail-gymeradwyo a dilysu partneriaid a'r cyrsiau y maent yn eu darparu sy'n arwain at ddyfarniadau.

95 Mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am ansawdd a safonau'r ddarpariaeth gydweithredol ar ysgwyddau'r Bwrdd Academaidd, ond maent yn cael eu goruchwyllo'n fanwl yng nghyfarfodydd yr Is-bwyllgor Ansawdd Partneriaethau sy'n adrodd i Bwyllgor Sicrhau Ansawdd y Brifysgol. Mae'r Is-bwyllgor Ansawdd Partneriaethau'n derbyn cefnogaeth weinyddol gan y Tîm Ansawdd a Gwasanaethau Academaidd yn y Gofrestrfa Academaidd. Mae Grŵp Gweithredu Partneriaid yn dod â staff y Brifysgol a'i phartneriaid at ei gilydd mewn cyfarfodydd rheolaidd i drafod a chymharu pob agwedd o'r gwaith o reoli cyrsiau a chymorth myfyrwyr. Cafwyd enghreifftiau gan aelodau o staff y partneriaid y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw i ddangos mor ddefnyddiol oedd cyfarfodydd y grŵp gweithredu yn eu barn hwy.

96 Mae'r Llawlyfr Partneriaethau'n disgrifio'n fanwl beth yw'r rolau a'r cyfrifoldebau sydd gan bob pwyllgor a phob aelod o staff sy'n rheoli'r ddarpariaeth gydweithredol: yn arbennig y rheolwyr partneriaeth a Swyddogion Cyswllt y Brifysgol a'i phartneriaid, ynghyd ag arweinwyr cwrs a modiwl sy'n cymryd rhan yn y gwaith dyddiol o weinyddu a darparu'r addysgu. Cyfarfu'r tîm adolygu â thrawstoriad o aelodau'r staff ar bob lefel yn y Brifysgol a'i phartneriaid, a gallai gadarnhau bod y cysylltiad rhwng y Brifysgol a'i phartneriaid yn fanwl ac yn digwydd yn rheolaidd, o leiaf unwaith yr wythnos.

97 Mae gofyn i bob partner gymryd rhan yn y broses fonitro barhaus (gwelwch baragraffau 37 a 38). Ar lefel cyrsiau, maent yn cynhyrchu ac yn cynnal adroddiadau a chynlluniau gweithredu ar gylch treigl. Gall y rhain fwydo i mewn i'r adroddiadau a'r cynlluniau gweithredu a lunnir ar y campws. Fodd bynnag, ym mlwyddyn academaidd 2021-22 pan oedd y pandemig ar ei anterth, newidiwyd y trefniadau monitro parhaus safonol, a gofynnwyd i'r partneriaid adrodd dim ond am y ffordd yr oeddent yn ymateb i'r pandemig. Yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22, dechreuodd y partneriaid ddychwelyd i'r trefnau monitro parhaus safonol. Roedd y dull cyflwyno a ddefnyddiwyd gan y rhan fwyaf o'r partneriaid yn cynnwys adroddiadau cwrs a modiwl ochr yn ochr â chynlluniau gweithredu, ar ffurf taenlen fel arfer. Roedd rhai o'r partneriaid yn gallu defnyddio'r system o adroddiadau monitro parhaus oedd ar waith ar y campws yr oedd staff y Brifysgol wedi ei hail-greu iddynt ar eu gwefannau SharePoint eu hunain.

98 Ar adeg yr adolygiad hwn, roedd y trefnau monitro parhaus safonol wrthi'n cael eu rhoi ar waith i bawb. Siaradodd staff y colegau partner yn gadarnhaol am fanteision y broses, ac am y gefnogaeth a'r hyfforddiant a gawsent gan swyddogion cyswllt a staff TG y Brifysgol i ddatblygu eu gwefannau SharePoint eu hunain. Hefyd, tynnwyd sylw at y Matrics Risgiau sy'n ddefnyddiol i staff wrth roi sgorau risg i'w cyrsiau.

99 Mae cyfranogaeth yr holl bartneriaid yn y prosesau monitro parhaus wedi hwyluso cyflwyniad dau ddull cysylltiedig ychwanegol o 2020 ymlaen o dynnu sylw'r Brifysgol at unrhyw broblemau a allai godi: cofrestr o risgiau a gedwir gan y Tîm Ansawdd a Gwasanaethau Academaidd, ac Adolygiadau Busnes Blynyddol y partneriaid, dan gadeiryddiaeth y Dirprwy Is-Ganghellor neu enwebai. Mae'r gofrestr o risgiau'n monitro data am y defnydd a wneir o brosesau ansawdd, ymlyniad â rheoliadau academaidd, problemau yn ymwneud ag adnoddau a ffigurau cadwraeth. Adroddir am risgiau sydd angen sylw ymhob un o gyfarfodydd yr Is-bwyllgor Ansawdd Partneriaethau, ac yna rhoddir camau gweithredu ar waith. Gwneir Adolygiadau Busnes

Blynyddol o'r partneriaethau gan ystyried risgiau sydd wedi eu cofnodi ar y gofrestr o risgiau. Nid yw'r Adolygiad Busnes Blynyddol yn disodli'r prosesau safonol o fonitro cyrsiau a modiwlau'n barhaus, ond mae'n darparu rhagor o wybodaeth am iechyd y bartneriaeth yn gyffredinol a'i phwysigrwydd strategol i'r Brifysgol. Gwelodd y tîm adolygu esiamplau diweddar o'r gofrestr o risgiau, a chyfarfu â staff a esboniodd sut mae'r Brifysgol wedi ymateb i'r ddau neu dri achos partneriaeth oedd wedi ymddangos arni. Roedd hi'n amlwg bod y gofrestr, ynghyd â'r Adolygiadau Busnes Blynyddol, yn darparu system ddefnyddiol i roi rhybudd cynnar am unrhyw broblemau a allai ddatblygu, ac y gallai'r adolygiadau, o bryd i'w gilydd, argymhell cau rhai partneriaethau a rhoi terfyn arnynt.

100 Mae'r Llawlyfr Partneriaethau'n nodi canllawiau a gweithdrefnau manwl i'w dilyn er mwyn diogelu buddiannau'r myfyrwyr wrth gau partneriaeth. Fel y crybwyllwyd uchod (gwelwch baragraff 87), roedd y Brifysgol wedi cau ymrwymiad sylweddol i adeiladu campws yn Dubai yn ddiweddar, ac yn 2018 roedd wedi cychwyn y broses o gau partneriaeth gyda darparwr ar-lein mawr yng Nghyprus a oedd, ar adeg yr adolygiad, yn darparu cyrsiau israddedig ac ôl-raddedig ar etholfraint gan y Brifysgol i fwy na 3,500 o fyfyrwyr. Mewn perthynas â'r ddau bartner hyn, nid oedd y penderfyniadau hyn i gau yn arwydd o unrhyw broblemau yn ymwneud ag ansawdd a safonau.

101 Rhoddwyd dogfennau manwl i'r tîm adolygu oedd yn disgrifio'r holl brosesau perthnasol i gau'r campws yn Dubai; cwblhawyd y drefn ym mis Awst 2021. Roedd yr wybodaeth a ddarparwyd yn dangos bod y broses gau wedi ei rheoli'n ofalus a bod cyfle i bob myfyriwr a effeithiwyd gwblhau eu hastudiaethau. Mewn perthynas â'r darparwr ar-lein yng Nghyprus, bydd y prosesau 'addysgu allan' yn parhau i fod ar waith hyd at fis Hydref 2025 pan ddisgwyllir i'r myfyrwyr rhan amser hynny sy'n weddill gwblhau eu hastudiaethau. Gallai'r tîm adolygu nid yn unig archwilio'r cynllun cau ynghyd â'i gynnydd hyd yn hyn, ond gallai hefyd gyfarfod â detholiad o fyfyrwyr a staff y partner oedd yn cymryd rhan yn y broses. Cyfarfu'r tîm hefyd ag aelodau o staff y Brifysgol oedd yn cymryd rhan yn y broses, er enghraifft cadeirydd y Grŵp Ymadael oedd yn goruchwyllo'r bartneriaeth. Roedd y dystiolaeth a welwyd ac a glywyd yn dangos nid yn unig bod y broses wedi ei rheoli'n dda, ond y cymerwyd y cyfle i wella rhannau o'r gwasanaethau cymorth myfyrwyr, gan ystyried adborth gan y myfyrwyr.

102 Argymhellodd yr Adolygiad Sicrwydd Ansawdd teirblynyddol a gynhaliwyd gan CCAUC yn 2019 bod y Brifysgol yn datblygu'r tri maes canlynol ymhellach mewn perthynas â'i darpariaeth gydweithredol: y dylid sefydlu dull systematig o sicrhau bod buddiannau myfyrwyr y partneriaid yn y DU yn derbyn ystyriaeth gan y sefydliad ac yn cael eu cynrychioli gan Undeb y Myfyrwyr; y dylai'r brifysgol ystyried i ba raddau y mae anghenion y corff myfyrwyr dramor wedi eu diwallu; ac y dylai'r corff llywodraethu gynnal goruchwyliaeth glir ar brofiad y myfyrwyr yn ei darpariaeth bartneriaeth. Felly, archwiliodd y tîm adolygu'r materion cysylltiedig hyn yn ei gyfarfodydd gyda myfyrwyr a staff y sefydliadau partner. Cadarnhaodd y cyfarfodydd hyn y pethau a nodwyd gan y Brifysgol yn ei Dadansoddiad Hunanwerthuso, sef nid yn unig yr oedd ymgysylltiad myfyrwyr yn y sefydliadau partner wedi derbyn sylw eglur yn y prosesau monitro parhaus ond, yn dilyn adolygiad yn 2020 o gyfranogaeth y myfyrwyr yn y prosesau ansawdd sydd ar waith ar safleoedd ei phartneriaid, bod y mecanweithiau i gasglu sylwadau'r myfyrwyr wedi eu cryfhau a bod myfyrwyr yn mynd i'r ymweliadau gan Swyddog Cyswllt y Brifysgol. Roedd llwybrau cyswllt clir wedi eu sefydlu i alluogi i'r myfyrwyr mewn sefydliadau partner gael cyngor neu gefnogaeth gan Undeb y Myfyrwyr a'i swyddogion sabothol, pe byddent yn dymuno hynny. Yn ystod blwyddyn academaidd 2021-22, roedd Undeb y Myfyrwyr wedi cysylltu â phob un o'r partneriaid i geisio enwebiadau ganddynt ar gyfer cynrychiolwyr y myfyrwyr a fyddai'n cysylltu'n uniongyrchol â'r Undeb, ond roedd yr ymateb yn isel. Fodd bynnag, dywedodd myfyrwyr y partneriaid y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw, gan gynnwys y rheiny oedd yn astudio ar gyrsiau a ddarperir ar-lein o bell yn gyfan gwbl, bod ymgysylltu cadarnhaol yn digwydd drwy bwyllgorau cyswllt staff-myfyrwyr a fforymau eraill yn eu sefydliadau eu hunain.

103 Roedd y cydweithrediad ag wyth coleg addysg bellach, saith ohonynt yng Nghymru a phump ohonynt yn y Gynghrair Addysg Uwch Strategol, wedi cyfrannu 27% o'r myfyrwyr oedd yn astudio mewn sefydliadau partner yn 2021-22. Maen nhw hefyd yn ffynhonnell recriwtio bwysig i gyrsiau ar Lefel 4 a Lefel 6 a ddarperir ar y campws pan ddaw'r myfyrwyr i'r Brifysgol i gwblhau eu cyrsiau gradd. Yng nghyfarfodydd y tîm adolygu gyda'r staff sy'n gyfrifol am bartneriaethau, yn y Brifysgol ac yn y colegau, roedd hi'n amlwg bod nifer fawr o bwyntiau cyswllt yn bodoli sy'n llai ffurfiol, ond sydd wedi eu sefydlu'n dda, yn ogystal â'r cysylltiad gofynnol rhwng y Brifysgol a Swyddogion Cyswllt y colegau, a bod y staff proffesiynol a'r staff academaidd ar bob lefel yn rhyngweithio â'i gilydd yn rheolaidd.

104 Yn ogystal, mae'r ffaith bod y colegau addysg bellach wedi mabwysiadu dulliau monitro parhaus, yn hytrach nag adroddiadau cyfnodol, a'r defnydd a wnânt o wefannau SharePoint i fewnbynnu ac asesu data newydd yn barhaus, wedi arwain at fwy o ddeialog am berfformiad a chynnydd y myfyrwyr ar lefelau'r cyrsiau a'r modiwlau rhwng staff y colegau a staff y Brifysgol. Cadarnhaodd staff addysgu'r colegau y cyfarfu'r tîm adolygu â nhw eu bod yn gwybod yn barod at bwy i droi yng nghyfadranau a gwasanaethau proffesiynol y Brifysgol. Soniodd staff y colegau'n aml fod cyfarfodydd y Grŵp Gweithredu Partneriaid gyda staff y Brifysgol yn ddull effeithiol o drafod problemau a mynd i'r afael â nhw, a chyfnewid syniadau. Y partneriaethau gyda cholegau oedd yn sail hefyd ar gyfer bidiau llwyddiannus ar y cyd am arian gan gronfa arloesi a datblygu rhanbarthol, a datblygiad Prentisiaethau Gradd sy'n darparu dilyniant, cyrsiau atodol a chynlluniau datblygu gyrfaoel mewn sgiliau allweddol. Mae'r tîm adolygu'n **canmol** y partneriaethau sydd wedi eu rheoli'n dda gyda'r pum coleg addysg bellach yn y Gynghrair Strategol, sy'n ateb anghenion y myfyrwyr yn yr ardal leol a'r cyflogwyr yn y rhanbarth.

105 I gloi, mae Prifysgol De Cymru'n brifysgol fawr, ac mae bron i 30% o'i myfyrwyr cofrestredig yn astudio ar gyfer dyfarniadau'r Brifysgol ar draws 40 o sefydliadau partner. Un o nodweddion arbennig y Brifysgol yw'r gyfran uchel o'i myfyrwyr cofrestredig sy'n astudio ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a phroffesiynol sy'n cynnwys lleoliadau gwaith mewn sefydliadau partner. Mae'r Brifysgol yn gwneud cyfraniad effeithiol i sgiliau'r gweithlu yng Nghymru. Ar draws y sector addysg uwch, gallai'r trefniadau cydweithredol fod yn rhai gyda risgiau uwch oherwydd y pellter a'r nifer fawr o bwyntiau cyswllt perthnasol o'u cymharu â darpariaeth ar y campws. Mae'r tîm adolygu wedi archwilio nifer fawr o ddogfennau sy'n disgrifio'r ffordd y mae'r Brifysgol yn rheoli ei darpariaeth bartneriaeth, a chyfarfu â thrawstoriad o fyfyrwyr a staff y sefydliadau partner. Ym marn y tîm adolygu, mae'r dystiolaeth a welwyd ac a glywyd yn dangos bod ansawdd a safonau'r dyfarniadau a roddir ar sail darpariaeth gydweithredol yn ddiogel, a bod profiad y myfyrwyr yn y sefydliadau partner yn dda. Mae'r tîm adolygu'n priodoli'r cryfderau hyn i'r dull o reoli partneriaethau sy'n canolbwyntio ar risgiau, y cynlluniau gweithdrefnol cynhwysfawr a chlir (yn arbennig y Llawlyfr Partneriaethau), a'r arian sy'n cael ei wario i sicrhau bod nifer ddigonol o staff ar gael ar bob lefel sy'n cadw cysylltiad rheolaidd â'u cydweithwyr mewn sefydliadau partner a gyda chyflogwyr sy'n darparu lleoliadau gwaith.

QAA2706 - R11997 - Medi 22

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch 2022
Southgate House, Southgate Street, Caerloyw, GL1 1UB
Rhifau elusen gofrestrdig 1062746 ac SC037786
www.qaa.ac.uk